

Plaid

# Maen i'r Wal

## Maniffesto dros Gymru Well

# Y Maniffesto
# ar ffurf arall

Gallwn ddarparu copïau o'r maniffesto ar Gryno Ddisg, mewn PRINT MAWR neu ar ffurf hawdd i'w ddarllen. I dderbyn copi mewn ffurf arall cysylltwch â:

**polisi@plaidcymru.org neu 029 20 475926**

Gallwch hefyd ddarllen y maniffesto ar-lein: www.plaidcymru.org

© Plaid Cymru The Party of Wales
ISBN 0-905077-84-9

Dyluniwyd gan:
**Kutchibok.co.uk**

Ffotograffiaeth:
**Alex Gregory**

Argraffwyd gan:
**Eclipse Printing**

Hyrwyddwyd gan:
**Gwenllian Lansdown**
ar ran Plaid Cymru,
Tŷ Gwynfor,
Glanfa'r Iwerydd,
Caerdydd, CF10 4AL

Cadwch mewn cysylltiad a'r Blaid trwy ddefnyddio twitter neu facebook

Facebook Twitter

# Dros Gymru Well Maniffesto Plaid Cymru 2011

## Dros Gymru Well// Ein Gweledigaeth – Degawd o Gyflawni

Wrth i ni baratoi ar gyfer tymor nesaf y Cynulliad, mae Plaid Cymru'n credu y dylai'r geiriau, "mae uchelgais yn hanfodol" fod yn greiddiol i'r egwyddor sy'n llywio llywodraeth nesaf Cymru. Dylai ein huchelgais amlygu ei hun dros y ddegawd nesaf trwy anelu at Gymru gryfach a gwytnach – gan weithredu o'r newydd yn ogystal â meddwl o'r newydd. Rhaid i ni ateb yr her o godi a chyfarfod â disgwyliadau pobl Cymru sydd eisiau gwasanaethau iechyd ac addysg o'r radd flaenaf yn ogystal â ffyniant economaidd a chymdeithasol.

Mae amser heriol o'n blaenau. Mae Cymru yn dal i ddioddef yn sgil argyfyngau ariannol ac economaidd Llafur, a'r toriadau mwyaf llym mewn gwasanaethau cyhoeddus ers y 1930au a orfodwyd arnom gan y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Mae'r glymblaid yn San Steffan yn dal i dargedu ein pobl mwyaf bregus gyda chynlluniau i ddiwygio lles sydd yn bygwth cosbi'r rhai na fedrant gwrdd â galwadau afrealistig y llywodraeth. Bydd toriadau llym i fudd-daliadau yn targedu'n annheg y tlotaf mewn cymdeithas, gan eu gwthio i gylch o dlodi mewn gwaith ac allan o waith.

Y Blaid yn unig sy'n credu fod Cymru arall yn bosibl. Mae ein gweledigaeth ni am Gymru newydd yn seiliedig ar uchelgais, parch a chyfrifoldeb ar y cyd. Fydd dim lle i ddiwylliant esgusodion a feithrinwyd gan Lafur yn ystod rhan fwyaf o ddeuddeg mlynedd gyntaf llywodraeth Cymru.

Mae gan y Blaid weledigaeth o Gymru fel gwlad fywiog a modern – wedi ei chyfoethogi gan gyfuniad o'i gorffennol balch a dylanwadau a chyfleoedd newydd y presennol. Rydym eisiau cenedl sydd yn ferw o weithgaredd a chreadigrwydd, arloeswyr a mentrwyr – sy'n torri cwys newydd yn y celfyddydau, gwyddoniaeth, addysg, chwaraeon a busnes. Mae ein gweledigaeth o Gymru ddwyieithog ac amlddiwylliannol hefyd yn seiliedig ar weld Cymru yn dod yn bartner cyfartal yng nghymuned y cenhedloedd Ewropeaidd – Cymru a fydd, trwy gymryd rhan ar y llwyfan rhyngwladol, yn creu cyfleoedd newydd – yn wleidyddol, gymdeithasol ac economaidd. Dyma Gymru y rhoddir gwerth ar ei chyfraniadau i ymdrin â phynciau mawr byd-eang y dydd - tlodi, newid hinsawdd, a gwrthdaro.

Rydym eisiau Cymru sydd yn enwog nid yn unig am ei harddwch eithriadol ond am ansawdd ei bywyd, gwasanaethau cyhoeddus gwych a safon byw sy'n cael ei fwynhau gan ei holl bobl – gwlad sy'n lle gwych i fyw a gweithio ynddi. Yn ogystal â chyfle i bawb ennill cyflog parchus, ein gweledigaeth ni o Gymru yw o wlad lle mae ein plant yn cael eu haddysgu i safon uchel a lle maent, gyda'n dinasyddion hŷn a mwy bregus, yn cael eu codi allan o dlodi ac yn cael eu gwarchod a derbyn gofal.

Nid oes ar bobl Cymru ofn torchi eu llewys. Gall Cymru fod yn gymdeithas fwy ffyniannus a theg. Rydym eisoes wedi cychwyn ar gynllun i greu gwlad sydd yn rhagori mewn gweithgynhyrchu blaengar, biowyddorau, ynni, gwasanaethau ariannol a'r diwydiannau creadigol. Trwy hyn, ac wrth gyflwyno seilwaith trafnidiaeth a digidol o'r radd flaenaf, rydym am weld economi fydd yn caniatau i fusnesau – bach a mawr – ddod yn fwy effeithlon, cynhyrchiol a chynaliadwy.

Fyddwn ni yn y Blaid byth yn barod i orffwys ar ein rhwyfau – fe wnawn yn sicr fod ein heconomi yn hyblyg a deinamig ac yn gallu ymaddasu i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd newydd ar y llwyfan cenedlaethol a rhyngwladol. Rydym eisiau trawsnewid ein hamgylchedd fusnes a chymdeithasol, yn ogystal ag ehangu sylfaen sgiliau ein dinasyddion fel bod ein lefelau cyflogaeth yn cymharu'n ffafriol gyda rhai gwledydd eraill nodweddiadol gogledd Ewrop.

Mae ein gweledigaeth ni yn un o Gymru sydd yn fwy hunan-gynhaliol yn economaidd a democrataidd, gwlad a all fanteisio ar ei hadnoddau naturiol – dŵr, gwynt a'r llanw – er lles ei dinasyddion a'r amgylchedd. Dylai ein datblygiad fel gwlad geisio ateb anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hanghenion hwythau.

Rydym eisiau i'n system addysg fod yn stori llwyddiant y ddegawd hon, i fod wedi grymuso'r genhedlaeth hon o blant i gyflawni eu potensial a bod wedi dileu anllythrennedd fwy neu lai ac anrhifedd fwy neu lai ymysg y sawl sy'n gadael yr ysgol. Rydym eisiau i'n plant ddod yn unigolion crwn, sy'n meddwl yn annibynnol ac sy'n awchu am arloesi a dysgu, gyda pharch i eraill a hwy eu hunain.

Mae gan y Blaid weledigaeth am Gymru, lle mae ei dwy iaith swyddogol yn awr yn mwynhau statws cyfartal, fel man lle caiff ei dinasyddion fwy o gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cartref, yn y gwaith neu yn gymdeithasol.

Cenedl falch yw Cymru. Fe'i lluniwyd gan uchelgais a chydymdeimlad ei phobl dros eu teuluoedd, eu cymunedau a'u gwlad, a bydd yn parhau felly. Rydym eisiau i Gymru fod yn genedl hyderus hefyd, sydd yn cydweithredu a chydweithio gyda'i chymdogion yn Lloegr, yr Alban, Iwerddon a'r gymuned ryngwladol ehangach. Yn y blynyddoedd i ddod, wrth i ni gymryd mwy o gyfrifoldeb

am lunio ein dyfodol, yr ydym hefyd eisiau gweld mwy o degwch i'n cenedl. Dylai Cymru dderbyn ei chyfran deg o gyllid gan lywodraeth y DG a mwy o hyblygrwydd i gryfhau ei heconomi, yn ogystal â chael mwy o reolaeth dros wasanaethau hanfodol mewn meysydd fel trafnidiaeth, ynni, cyfiawnder troseddol a darlledu.

I wireddu'r weledigaeth hon, beth y mae ar ein gwlad ei hangen yn anad dim yw arweiniad cryf – arweiniad sydd nid yn unig yn derbyn cyfrifoldeb am gyflawni dros Gymru, ond sy'n benderfynol o wneud hynny. Y Blaid fydd yn gwneud hynny a dyna fydd ein prif nod yn ystod tymor nesaf y Cynulliad.

Mae'r etholiad hwn yn ddechrau cyfnod newydd yn ein hanes yn dilyn ein llwyddiant i gael pwerau deddfu i'n Cynulliad. Ond all y newid ddim peidio yma. Nawr yw'r amser i drawsnewid Cymru i fod yn wlad y mynnwn ni ei bod. Mae Plaid Cymru nid yn unig yn cynnig y weledigaeth honno ond yn addo cyflawni'r newid sydd arnom ei angen. Gwyddom nad yw pobl Cymru yn disgwyl dim llai gennym.



Polisïau dros Gymru well:

**Addewidion Plaid Cymru ar gyfer etholiad 2011**

# Pob Plentyn yn Cyfri

*Bydd y Blaid yn gwneud yn siŵr y gall plant, wrth adael yr ysgol gynradd, ddarllen, ysgrifennu a chyfrif i'r safon a ddisgwylir.*

Ar hyn o bryd, mae gormod o'n plant yn gadael yr ysgol heb feddu ar y sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol sydd eu hangen i lwyddo mewn bywyd. All hyn ddim parhau.

Bydd llywodraeth y Blaid yn cael y pethau sylfaenol yn iawn i genedlaethau'r dyfodol. Bydd y Blaid yn codi safonau er mwyn sicrhau, pan fydd ein plant yn gadael addysg, fod ganddynt y sgiliau sylfaenol sydd eu hangen i lwyddo - y gallu i ddarllen, ysgrifennu a chyfrif i'r safon ddisgwyliedig. Gallwch gyfrif ar y Blaid i wella addysg ein plant.

**Plaid. Dros well addysg.**

01_




ECLIPSE
Free Dan
Events



## Polisïau dros Gymru well:

**Addewidion Plaid Cymru ar gyfer etholiad 2011**

# Adeiladu dros Gymru & Bonws Busnesau Bach

*Bydd y Blaid yn helpu i dyfu ein busnesau bach, yn creu miloedd o swyddi newydd ac yn helpu pobl i gael yr hyfforddiant a'r sgiliau ar gyfer swyddi tymor hir.*

Mewn llywodraeth, mae gweithredu rhagweithiol y Blaid wedi amddiffyn miloedd o swyddi'n ystod cyfnod caletaf y dirwasgiad. Nawr fe fyddwn yn helpu i adfer a thyfu economi Cymru fel bo'n cenedl yn dod yn fwy llewyrchus.

- Bydd cwmni Adeiladu dros Gymru y Blaid yn buddsoddi mewn ysbytai, ysgolion, tai a thrafnidiaeth ac yn creu hyd at 50,000 o swyddi newydd ar draws Cymru.

- Bydd Bonws Busnesau Bach y Blaid yn cyflwyno cynllun newydd gwerth £90 miliwn o fenthyciadau i fusnesau bach a hefyd yn sicrhau parhad rhyddhau treth i helpu datblygu canol ein trefi a'n busesau bach.

- Bydd y Blaid yn cefnogi 30,000 prentisiaeth ac yn annog sgiliau a gallu pobl ifanc i gael swyddi ar draws Cymru.

**Y Blaid. Dros economi well.**

Polisïau dros Gymru well:

**Addewidion Plaid Cymru ar gyfer etholiad 2011**

# Doctor a Deintydd – pan fo angen un

*Sicrhau gofal iechyd cyflym ac effeithiol yn eich cymuned.*

Pan aeth y Blaid i lywodraeth, rhoesom stop ar gynllun trychinebus Llafur i israddio ysbytai, gan amddiffyn eich gwasanaethau iechyd lleol hanfodol. Ond fe wyddom y gall ein gwasanaeth iechyd cenedlaethol fod hyd yn oed yn well.

Bydd llywodraeth y Blaid yn eich helpu i weld meddyg neu ddeintydd pan fydd arnoch angen - er enghraifft, peri bod mwy o wasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau pan fydd eu hangen. Byddwn hefyd yn helpu i greu mwy o ddeintyddion y GIG mewn ardaloedd lle mae'r galw yn uchel.

**Plaid. Dros well gwasanaeth iechyd.**

03_




MEDICAL CENTR
PEN
MON – FRI
LOSED
DAILY
12.30 –
URGERIES
MON
8.00 – 11.00
TU_S
8.00 – 11.00
WED
8.00 – 11.00

## Polisïau dros Gymru well:

**Addewidion Plaid Cymru ar gyfer etholiad 2011**

# Cysylltu Cymru

*Bydd y Blaid yn Cysylltu Cymru gan wella signal ffonau symudol, band eang a wifi a chreu system drafnidiaeth fodern er mwyn symud ein cenedl ymlaen.*

Rydym yn dibynnu ar drafnidiaeth a thechnoleg dda er gyfer busnes a bywyd bob-dydd, ond mewn sawl rhan o Gymru mae angen i'r cysylltiadau yma fod yn llawer gwell.

Bydd y Blaid yn arloesi gyda gwelliannau mawr mewn ffonau symudol, band eang a wifi gan gynnwys mewn trafnidiaeth gyhoeddus. Byddwn yn cysylltu pob busnes a chartref i fand eang cyflym ac yn gwella mynediad i wifi er mwyn gwneud Cymru yn Genedl Ddiwifr.

Bydd llywodraeth y Blaid yn creu gwell system drafnidiaeth i gael Cymru i symud - gan gyflymu'r taith i waith a rhoi i chi ffyrdd cyflym, dibynadwy a fforddiadwy o deithio. Byddwn yn symud i drydaneiddio mwy o reilffyrdd ar draws Cymru a gwella ein gwasanaethau bysus. Bydd Cymru fwy cysylltiedig yn helpu i greu Cymru lwyddiannus.

**Plaid. Dros Gymru fwy cysylltiedig**

04_



# Ein Llywodraeth CymruWell// Llywodraeth fwy effeithiol ac effeithlon

**Yn dilyn y bleidlais Ie yn y refferendwm ar bwerau Cymru, gallwn yn awr fwrw ymlaen i gyflawni gwell bolisïau, Llywodraeth a gwasanaethau.**

Bydd Plaid Cymru yn sicrhau mai cyflawni canlyniadau effeithiol, clir a chadarn i bobl Cymru fydd nod Llywodraeth nesaf Cymru, gan alltudio unwaith ac am byth o'n democratiaeth ei diwylliant o hunan-fodlonrwydd ac esgusodion.

Cafodd gwaddol Llafur o fethiant economaidd, ynghyd â'r dirwasgiad byd-eang gwaethaf ers degawdau, effaith enfawr ar Gymru. Gadawodd eu rheoleiddio ysgafn ar y banciau yn Llundain gyfnod o chwyddo a disgyn. Talasant ddyledion y bancwyr sydd, unwaith eto, yn mwynhau bonysau enfawr tra bod pawb arall yn talu'r pris trwy doriadau gwario a mwy o drethi. Ddylem ni ddim anghofio fod y toriadau oedd ganddynt hwy yn yr arfaeth, sef £1.5 biliwn i gyllideb Cymru, bron yr un fath â'r rhai sy'n digwydd yn awr dan glymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Gyda thoriadau o £1.52 biliwn i wario cyhoeddus dros bedair blynedd, mae'r Llywodraeth Geidwadol-Ddemocrataidd Ryddfrydol yn Llundain yn dilyn polisïau ideolegol, gyda'r bwriad o wthio'r wladwriaeth yn ôl o ddarparu gwasanaethau hanfodol. Maent wedi mentro yn arswydus, nid yn unig â'r economi, ond gyda bywydau a dyfodol pawb yng Nghymru.

**Ac eto, ar waethaf y toriadau hyn a osodwyd gan San Steffan, mae'r Llywodraeth gyda grym y Blaid y tu ôl iddi yng Nghymru wedi gwneud popeth yn ei gallu i flaenoriaethu ysgolion ac ysbytai, presgripsiynau a thocynnau bysiau am ddim, gwasanaethau cyngor, a help i swyddi a'r economi.**

Bydd Gweinidogion y Blaid yn parhau i ddangos arweiniad trwy sicrhau fod Llywodraeth yn fwy miniog, effeithlon a llyfnach o ran cyflawni. Fe fydd y Blaid yn disgwyl y canlyniadau gorau i bobl Cymru. Arwain strategol fydd ein rôl ni. Byddwn yn arfer ein gwleidyddiaeth ni er mwyn gwneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl.

Mae Plaid Cymru wedi gwrthwynebu'n gyson agwedd clymblaid y Ceidwadwyr-Democratiaid Rhyddfrydol at drin y diffyg. Yn ein barn, ni ddylid gweithredu cydgyfnerthu ariannol tan i ni weld tri chwarter o dŵf economaidd cryf yn olynol. Fodd bynnag, tra byddwn yn parhau i bledio achos blaenoriaethu economi gref cyn mynd ati yn anhyblyg i dorri ar wariant cyhoeddus, yr ydym hefyd yn gweld fod gennym ddewisiadau anodd i'w gwneud yng Nghymru.

## Diwygio Llywodraeth Cymru

**Yn y Llywodraeth nesaf, bydd y Blaid yn newid gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru gyda dim llai na chwyldro diwylliannol. Byddwn yn creu Llywodraeth feinach ac yn cywain y doniau a'r sgiliau angenrheidiol y mae pobl Cymru yn ddisgwyl gan ei gweision cyhoeddus er mwyn gwella gwasanaethau.**

Byddwn yn sicrhau eglurder rhwng y ddeddfwrfa a'r corff gweithredol, gan ail-enwi Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd yr enw yn newid yn swyddogol i Lywodraeth Cymru, pan ffurfir y Llywodraeth newydd. Byddwn yn ceisio pwerau i benodi'r Ysgrifennydd Parhaol fel Pennaeth y Gwasanaeth Cyhoeddus Cymreig Cenedlaethol ac yn atebol i Lywodraeth Cymru.

Byddwn yn torri nifer Gweinidogion y Cabinet ac yn gwneud yn siŵr na fydd cyllideb gyffredinol Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion y Llywodraeth yn codi mewn termau real dros dymor y Cynulliad nesaf. Yn unol ag ymrwymiad o rewi cyflogau ACau, bydd Gweinidogion Cymru yn cael toriad unwaith-am-byth o 10% yn eu cyflogau, a bydd eu tâl wedyn yn cael ei rewi tan ddiwedd tymor y Llywodraeth. Gwnawn yn siŵr y daw swyddfeydd Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno, Aberystwyth a Merthyr Tudful yn ganolfannau rheolaidd i waith Gweinidogion Cymru.

Byddwn yn ceisio pwerau i sefydlu Gwasanaeth Cyhoeddus Cenedlaethol gyda'r bwriad o gyflawni ar ran pobl Cymru. Bydd Llywodraeth y Blaid yn datganoli mwy o swyddi i'r rhanbarthau fel y symudir mwy o swyddi yn y Gwasanaeth Cyhoeddus Cenedlaethol i swyddfeydd Llywodraeth Cymru y tu allan i Gaerdydd. Byddwn yn ceisio cyfle hefyd i ddwyn mwy o arbenigedd i'r Gwasanaeth Cyhoeddus Cenedlaethol o fudiadau eraill.

Byddwn yn ei gwneud yn haws dal y Llywodraeth yn atebol trwy wneud penderfyniadau'r Llywodraeth yn fwy tryloyw trwy gyhoeddi penderfyniadau manwl ar wario, strwythurau staffio a bandiau cyflog. Byddwn yn sicrhau y cyhoeddir holl benderfyniadau polisi Llywodraeth Cymru yn siambr y Cynulliad yn gyntaf. Byddwn yn cynnwys cymalau amgylcheddol a chymdeithasol mewn mwy o gontractau'r Llywodraeth.

Byddwn yn cynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb llawn ac asesiadau effaith ar sail rhywedd ar newidiadau cyllidebol a pholisïau economaidd newydd er mwyn sicrhau nad yw menywod dan anfantais anghymesur, er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn manteisio i'r eithaf ar gryfderau ein gweithlu benywaidd, ac i annog mwy o fenywod i fynd i sectorau blaenoriaeth.

Mae Plaid Cymru yn ymrwymo i hybu a diogelu'r safonau uchaf o ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus, gan gynnwys gan Aelodau'r Cynulliad.

Byddwn yn gosod trefniadau llywodraethiant newydd i Swyddfa Archwilio Cymru.

## Cryfhau Democratiaeth Cymru

**Mae'r Blaid bob amser wedi credu, os bydd gan bobl Cymru fwy o rym i lunio eu dyfodol, y daw Cymru yn wlad gryfach, fwy hyderus a fwy ffyniannus. Rydym eisiau dod â'r holl gwestiwn ynglŷn â sut y gwneir penderfyniadau yn nes at bobl Cymru.**

**Dyna pam yr ydym yn parhau'n ymrwymedig i Gymru annibynnol fel aelod llawn o'r Undeb Ewropeaidd. Deallwn y bydd y cam cyfansoddiadol tymor hwy hwn yn benderfyniad a fydd yn  y pen draw yn nwylo pobl Cymru.**

Yn nhymor y Cynulliad nesaf, credwn y bydd blaenoriaethau ein dinasyddion yn cael eu hateb yn well trwy ddatganoli nifer o wasanaethau i'r Cynulliad Cenedlaethol a thrwy ddiwygio'r modd y cyllidir Cymru gan Drysorlys y DG.

Yn y Llywodraeth nesaf, bydd y Blaid yn ceisio setliad cyllidol newydd i Gymru fel yr argymhellwyd gan y Comisiwn Annibynnol ar Gyllido a Chyllid i Gymru.  Bydd hyn yn cynnwys diwygio fformiwla Barnett; datganoli pwerau trethu i Gymru; y grym i ostwng treth gorfforaeth; a phwerau benthyca. Mae'r Blaid yn cytuno gyda barn y Comisiwn y byddai hyn yn gwella gallu Llywodraeth Cymru i reoli ei busnes a'i gwneud yn fwy atebol i'r cyhoedd.

**Byddwn yn ceisio cryfhau democratiaeth Cymru trwy ddatganoli cyfrifoldebau, gyda setliad cyllido priodol, i'r meysydd canlynol:**

Bydd y Blaid yn pwyso am drosglwyddo'r cyfrifoldeb a'r cyllid dros yr heddlu a'r system cyfiawnder troseddol yn fwy cyffredinol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Wrth i Gymru ddatblygu ei chorff ei hun o gyfreithiau, bydd y Blaid yn creu awdurdodaeth Gymreig fel bod gweinyddu cyfiawnder wedi ei deilwra i anghenion cymdeithasol ac economaidd Cymru.

Byddwn yn ceisio datganoli darlledu i amddiffyn S4C yn ogystal â chynnyrch Cymraeg a Saesneg o Gymru ar y teledu, radio ac ar-lein.

Cred y Blaid y dylai Cymru reoli ei hadnoddau naturiol ei hun – gwynt, dŵr, haul a'r llanw – a byddwn yn pwyso am ddatganoli'r cyfrifoldeb dros y meysydd hyn yn ogystal â phob prosiect cynhyrchu ynni.

Rydym hefyd eisiau moderneiddio ein rhwydwaith rheilffyrdd a byddwn yn pwyso am ddatganoli swyddogaethau a chyllid Network Rail er mwyn ateb blaenoriaethau trafnidiaeth Cymru.

Byddwn yn ceisio datganoli pwerau dros wasanaethau gwylwyr y glannau i'r Cynulliad.

Credwn fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn gwell sefyllfa i hybu

cydraddoldeb a byddwn yn ceisio mwy o bwerau yn y maes hwn er mwyn sicrhau newid gwirioneddol i grŵpiau sydd yn draddodiadol wedi eu heithrio.

### Cryfhau gwneud penderfyniadau a chyflwyno gwasanaethau yn lleol

**Mae'r Blaid bob amser wedi'i gwreiddio yng nghymunedau Cymru, ac yn blaid sy'n credu mewn gwneud penderfyniadau yn lleol. Credwn yn gryf nad yw datganoli yn dod i ben yng Nghaerdydd. Credwn hefyd fod pobl eisiau gweld gwerth am arian gan eu Cynulliad a'u awdurdodau lleol.**

**Yma yng Nghymru, mae'r Blaid wedi amddiffyn cyllid i'n cynghorau, ac fe fydd yn parhau i wneud hynny cyhyd ag y bo modd er mwyn diogelu gwasanaethau allweddol megis addysg a gofal cymdeithasol. Yr ydym yn cydnabod, fodd bynnag, yr angen i ddiwygio gweinyddu a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus gan lywodraeth leol. Yng ngoleuni hyn, byddwn yn ceisio memorandwm dealltwriaeth newydd rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol.**

Cred y Blaid fod modd cael gwell gwasanaethau a rhai mwy effeithiol pan fydd awdurdodau lleol yn cydweithio. Byddwn yn hwyluso hyn trwy newid ffrydiau cyllido, a byddwn yn cefnogi arfer gorau mewn darparu gwasanaethau yn fewnol. Mewn gwasanaethau penodol, bydd y Blaid yn cyfarwyddo awdurdodau lleol i weithio ar y cyd yn rhanbarthol.

Cred y Blaid y byddai ad-drefnu llywodraeth leol yn y cyfnod hwn o'r bôn i'r brig yn gostus, ac yn tynnu oddi wrth yr ymdrech i wella cyflwyno gwasanaethau. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu effeithlonrwydd a gwerth am arian y trefniadau rhanbarthol rhwng cynghorau, ac mewn ymgynghoriad ag awdurdodau lleol, trethdalwyr cynghorau ac aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol, yn archwilio'r angen am newid ffiniau fesul achos - os tybir bod angen hyn. Byddwn yn sefydlu comisiwn annibynnol i adolygu cyllido llywodraeth leol.

Er mwyn gwneud llywodraeth leol yn fwy atebol ac ymatebol i anghenion cymunedau, a waeth beth fydd canlyniad refferendwm y DG ar y bleidlais Pleidlais Amgen, byddwn yn cychwyn ar y broses o gyflwyno Pleidlais Drosglwyddadwy Sengl i etholiadau yng Nghymru trwy ddefnyddio'r system ar gyfer etholiadau llywodraeth leol. Byddwn yn parhau i gefnogi'r ymgyrch dros bleidleisio yn 16, a byddwn yn sefydlu Senedd Ieuenctid.

### Creu cysylltiadau gyda'r cenhedloedd datganoledig, y DG a'r UE

**Mae'r Blaid yn wastad eisiau dal syniadau newydd, datblygu galluedd polisi a dysgu o fannau y tu hwnt**

**i'n ffiniau a'r tu allan i Lywodraeth. Mae'n hanfodol cynnal perthynas waith broffesiynol gyda Llywodraethau a chenhedloedd eraill er mwyn cynrychioli buddiannau dinasyddion Cymru.**

**Rhaid i lais Cymru ar faterion nas datganolwyd gael ei glywed yn Whitehall a Brwsel. Rhaid i'n perthynas â chenhedloedd eraill fod yn seiliedig ar barch gwirioneddol yn hytrach nac arwynebol. Bydd y Blaid wastad yn gwrthwynebu gwleidyddiaeth lwythol ac yn rhoi buddiannau Cymru yn gyntaf bob un tro.**

Yn y Llywodraeth nesaf, bydd y Blaid yn creu perthynas ffurfiol gyda Llywodraeth y DG a'i hadrannau unigol gyda phrotocolau wedi eu sefydlu i sicrhau cydweithrediad a datrys anghydfod. Byddwn yn pwyso am drafodaeth gynnar rhwng Llywodraeth y DG a'r Llywodraethau datganoledig ar strwythur cyfansoddiadol mwy addas i grisialu'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DG.

Cred y Blaid, gyda Chynulliad all wneud deddfau, mai gwanhau y mae'r achos dros Swyddfa Cymru ac ysgrifennydd Gwladol dros Gymru ac nad yw'r rhain o lawer o fudd i Gymru. Credwn y dylid disodli'r rôl hon gyda swydd Ysgrifennydd Gwladol i'r gwledydd datganoledig.

Byddwn yn ceisio cytundeb am gyfarfod ddwywaith bob blwyddyn rhwng Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog y DG yn ogystal â rhwng Gweinidogion Adrannau Llywodraeth Cymru a'u cymheiriaid yn y DG. Bydd y Blaid yn gweithio i sicrhau y bydd y Cydgyngor y Gweinidogion yn parhau i fod â rhan wrth hwyluso trafodaethau rhwng Llywodraethau'r cenhedloedd datganoledig a datrys unrhyw anghydfod rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DG.

Byddwn yn gweithio gyda  Gweinidogion y DG ar safbwyntiau polisi mewn trafodaethau yn yr UE ond lle bo barn wahanol, ni fydd Gweinidog Cymru wedi ei rhwymo gan unrhyw un o safbwyntiau trafod y DG.  Dan amgylchiadau o'r fath, disgwylir i'r Gweinidog o Gymru gyfleu barn Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol i Gomisiwn yr UE ac Aelod-Wladwriaethau a rhanbarthau eraill.

Byddwn yn parhau i gefnogi mwy o ddiwygio democrataidd ar yr Undeb Ewropeaidd ac yn ceisio gwell cynrychiolaeth i Gymru yn yr UE gan gynnwys nifer tecach o ASE i Gymru, swyddfa gan Senedd Ewrop yng Nghymru, Comisiynydd Ewropeaidd y mae ei swydd yn cylchdroi, ac yn anad dim, pleidlais i Gymru yng Nghyngor y Gweinidogion. Byddwn yn parhau i weithio dros statws swyddogol llawn i'r Gymraeg yn yr UE.

## Cymru yn y byd

**Yn y Llywodraeth nesaf, bydd y Blaid yn diwygio presenoldeb Llywodraeth Cymru dramor er mwyn cael y manteision mwyaf i economi Cymru, hybu buddiannau Cymru a llunio perthynas strategol.**

Byddwn yn gweithredu ac yn cefnogi agwedd newydd at wella proffil Cymru yn rhyngwladol, yn ogystal â marchnata'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig, yn enwedig i'r gymuned fusnes.

Byddwn yn datblygu agwedd gliriach at ymwneud â'r gymuned rhyngwladol, gan lunio partneriaethau a deialog newydd rhwng busnesau, sefydliadau cenedlaethol a sefydliadau addysgol, yn datblygu ein harbenigedd yng Nghymru. Byddwn yn parhau i bwyso am bolisi tramor moesol sydd yn pwysleisio atal gwrthdaro ac yn parchu rôl y Cenhedloedd Unedig, ac fe fyddwn yn sicrhau llais cryf i Gymru a chenhedloedd datganoledig eraill ar faterion rhyngwladol.

Byddwn yn pwyso ar Lywodraeth y DG i anrhydeddu'r ymrwymiad i gyflwyno 0.7% o GDP fel cymorth rhyngwladol. Byddwn yn gweithio gyda'r Adran Ddatblygu Rhyngwladol i drosglwyddo swyddogaethau priodol a chyllideb am, waith tramor i'r Cynulliad Cenedlaethol. Byddwn yn cefnogi rhaglen Cymru dros Affrica. Ail-ddatganwn ein cefnogaeth i'r mudiad Masnach Deg rhyngwladol, a byddwn yn annog defnyddio cynhyrchion Masnach Deg ar draws y sector cyhoeddus. Byddwn yn parhau i bwyso am weithredu pellach ledled Ewrop i atal masnachu mewn pobl.

## Helpu'r rhai sy'n dod i Gymru am fywyd gwell

Mae cenedlaetholdeb sifig  y Blaid yn dathlu goddefgarwch, cyd-ddealltwriaeth a gwahaniaethau. Condemniwn y sgorio pwyntiau a ddefnyddir gan bleidiau eraill, a'r ymgreinio i ragfarnau senoffobaidd di-sail yn y ddadl ar fewnfudo.

Bydd Llywodraeth y Blaid yn cynnal y Confensiwn Ffoaduriaid, a byddwn yn pwyso ar Swyddfa Gartref y DG i ofalu bod achosion ceiswyr lloches yn cael eu hasesu'n iawn. Byddwn yn ymgyrchu dros gael digon o gyngor cyfreithiol o safon, a hynny am ddim, i geiswyr lloches yng Nghymru. Byddwn yn pwyso ar Swyddfa Gartref y DG i gyhoeddi ystadegau lloches rheolaidd a manwl i Gymru yn genedlaethol. Byddwn yn buddsoddi mewn mwy o ddosbarthiadau iaith dwys mewn Saesneg a Chymraeg i ffoaduriaid, fel y gallant deimlo'n gartrefol yng Nghymru, ac yn rhan o'r gymdeithas.

Cefnogwn hawl ceiswyr lloches i geisio gwaith yn y DG tra'u bod yn aros am benderfyniadau am eu statws. Condemniwn yr arfer o gartrefu ceiswyr lloches sydd newydd gyrraedd, yn enwedig plant, mewn canolfannau “cadw” neu “symud” fel cosb greulon, a byddwn yn parhau i lobio Llywodraeth DG i sicrhau y cadwant at eu haddewid i gau'r canolfannau hyn.

# Ein Heconomi CymruWell// Economi gref a chynaliadwy

**Plaid Cymru yw'r unig blaid Llywodraeth yng Nghymru sydd wedi derbyn bod ein heconomi yn tanberfformio ac y gall ac y dylai wneud yn well. Mae'r Blaid eisiau gweld cyfoeth yn tyfu yng Nghymru, nid fel diben ynddo'i hun, ond er mwyn trawsnewid lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol teuluoedd a chymunedau a chodi pobl allan o dlodi.**

**Yn 2010 datgelodd y Blaid mewn Llywodraeth hefyd gynllun radical ar gyfer adferiad economaidd. Creodd "Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd" ysgytwad yn y modd mae'r Llywodraeth yn cefnogi busnesau i dyfu a ffynnu. Wedi dangos y gall Llywodraeth ddatganoledig amddiffyn swyddi a gweld pan fo system gefnogi busnes yn methu, a'i newid - rhaid i ni yn awr gyflwyno gwelliannau pendant.**

## Llunio economi gref

**Ein haddewid am dymor nesaf y Cynulliad yw trawsnewid yr amodau i fusnes yng Nghymru er mwyn caniatáu i'r sector preifat ffynnu yn gynaliadwy. Byddwn yn gweithio i gynyddu allforion Cymreig a pharhau i wella ein proffil masnachu yn rhyngwladol. Ein prif amcan fydd creu economi sydd yn gweithio i bobl Gymru, yn ein helpu i fyw mewn gymunedau cynaliadwy gyda ffyniant cynyddol a daioni i bawb.**

Yn y Llywodraeth nesaf, bydd y Blaid yn cyflawni "Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd" gyda'r penderfyniad cadarn y bydd yn llwyddo. Bydd y Blaid yn gwneud y Llywodraeth yn fwy atebol i anghenion ein heconomi trwy benodi Gweinidog Adnewyddu'r Economi fydd yn gyffredinol gyfrifol am fusnes, seilwaith, sgiliau, addysg uwch ac arloesedd. Bydd yr adran hon hefyd yn gyfrifol am drethi busnes. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar berfformiad Llywodraeth Cymru o ran cyflwyno gwell seilwaith; cefnogaeth fwy effeithiol i fusnes; sylfaen sgiliau ehangach a dyfnach, ac yn annog arloesedd.

Byddwn yn creu cwmni Adeiladu dros Gymru i greu hyd at 50,000 o swyddi, gan gynnwys 20,000 yn y sector gwyrdd. Er mwyn moderneiddio'n gwasanaethau cyhoeddus, mi fydd y cwmni'n buddsoddi hyd at £500 miliwn yn ystod tymor nesaf y Cynulliad. Yn sail iddi bydd Cynllun Seilwaith i Gymru-gyfan a fydd yn buddsoddi mewn trafnidiaeth, ein hysgolion, ysbytai, ein seilwaith technoleg gwybodaeth a'n hynni.

Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn Cronfa Buddsoddi mewn Adfywio yng Nghymru dros dymor nesaf y Cynulliad yn ogystal ag annog mwy

o fuddsoddi gan y sector preifat a byddwn yn defnyddio'r arian hwn i hybu datblygu cynaliadwy, a thwf a swyddi yn ein trefi a'n dinasoedd.

Byddwn hefyd yn arloesi gyda gwelliannau mawr mewn technoleg ffonau symudol, 3G, 4G a Wi-Fi ledled Cymru trwy ddefnyddio tir ac asedau sydd mewn perchenogaeth gyhoeddus. Byddwn yn sicrhau mai Cymru fydd y genedl Band Eang y Genhedlaeth Nesaf gyntaf yn y DG gyda chysylltiadau cyflym i bob busnes yng Nghymru erbyn 2015 a phob cartref erbyn 2020. Byddwn yn arloesi 'Wi-Fi Cymru', cynllun i alluogi cysylltedd diwifr am ddim yn adeiladau cyhoeddus yng Nghymru.

Bydd y Blaid yn ymdrechu i sicrhau fod y ffigwr am wariant cyhoeddus ar ymchwil a datblygu yng Nghymru yn codi o 2% o gyfanswm gwariant y DG i 5% dros dymor y Cynulliad nesaf, gyda mwy o ganolbwynt ar y meysydd blaenoriaeth a nodwyd gan y Blaid mewn Llywodraeth: yr economi ddigidol; technolegau carbon isel; iechyd a biowyddorau ac uwch-beirianneg a gweithgynhyrchu.

Byddwn yn gweithio gyda Fforwm Gweithgynhyrchu Cymru i weithredu ei strategaeth newydd sydd wedi anelu at sefydlu a datblygu mwy o gwmnïau gweithgynhyrchu o bob maint, sy'n ychwanegu gwerth sylweddol, all adnabod a manteisio ar gyfleoedd newydd – yn enwedig o ran technoleg carbon isel. Byddwn yn cefnogi arweinyddiaeth arloesol a byddwn yn ymrwymo i godi lefelau sgiliau gweithwyr.

Bydd y Blaid yn cefnogi datblygu meicro-gyllid, undebau credyd a modelau cyllid cymdeithasol eraill a byddwn yn datblygu modelau cyllido cynaliadwy i gefnogi mentrau cymdeithasol, cydweithredol a chydfuddiannol. Byddwn yn ffurfio Tasglu Mentrau Cydweithredol a Chydfuddiannol i yrru'r sector mentrau cymdeithasol ymlaen.

## Helpu ein busnesau bychain i lwyddo

**Byddwn yn parhau i werthfawrogi ein busnesau bychain a'u cyfraniad hanfodol i'n heconomi ym mhob rhan o Gymru.**

Mae tystiolaeth glir fod ein busnesau bach yn cael trafferth i gael cyfalaf twf, gyda'r mwyafrif llethol o fusnesau yng Nghymru yn methu cyrchu Cronfa Twf Busnes y DG am fod y trothwy trosiant yn rhy uchel. Byddwn felly'n sefydlu, mewn partneriaeth â'r sector preifat, Cronfa Twf Cymru i'r busnesau bach allu cyrchu cyllid yn haws.

Mae ar fusnesau hefyd angen benthyciadau llai, haws mynd atynt. Bydd y Blaid yn ymchwilio i ddefnyddio modelau cyllid cymunedol o ran darparu ateb hyblyg, mwy lleol i'r broblem hon. Byddwn yn ymchwilio i bosibilrwydd defnyddio strwythur yr undebau credyd fel mecanwaith i dalu gweithwyr y sector cyhoeddus,

gan ddarparu arian i'r undebau credyd er mwyn benthyca i fusnesau bach a chanolig.

Byddwn yn cadw lefel bresennol y rhyddhad treth busnes i fusnesau yng Nghymru. Byddwn yn adolygu'r system presennol i ddatblygu model ardrethi busnes sy'n eithrio camau atal troseddu a newidiadau amgylcheddol fanteisiol a gymerir gan fusnesau bach o'r cyfrif gwerth ardrethol, ac fe fyddwn yn cyflwyno natur dymhorol i fusnesau sydd yn dibynnu ar dwristiaeth.

Byddwn yn creu Asiantaeth y Swyddfa Brisio i Gymru. Rhaid cynnal asesiadau gwerthoedd ardrethol teg i roi maes chwarae gwastad i fusnesau bach, yn hytrach na ffafrio datblygiadau mwy ar gyrion trefi fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Byddwn yn cynnal Strategaeth Manwerthu fanwl i Gymru.  Mae'r sector manwerthu yn allweddol i economïau lleol a chanol trefi bywiog, mae'n cyfrannu tuag at iechyd busnesau eraill yn ogystal â darparu gwasanaethau i gymunedau lleol. Byddwn yn dylunio strategaeth genedlaethol i wella canol trefi ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr, gan ddefnyddio siopau gwag fel swyddfeydd masnachol, hybu cynnyrch lleol a chreu mwy o lefydd i fyw mewn canol trefi.

Byddwn yn diogelu Cronfa Arallgyfeirio Swyddfeydd Post ac yn parhau i sicrhau y gwarchodir Swyddfeydd Post a siopau lleol.  Byddwn yn gwrthwynebu preifateiddio'r Post Brenhinol.

Byddwn yn gofalu bod Cymru yn arloesi mewn technolegau 'gwyrdd'. Rydym eisiau annog a chefnogi arloesi a datblygu'r cynhyrchion a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar economi carbon isel. Byddwn yn cefnogi busnesau Cymreig all fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan ein hadnoddau naturiol ac yn arwain o ran datblygu technolegau carbon isel ac ynni cynaliadwy.

Bydd y Blaid yn ceisio newid radical i gaffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru fel ei fod yn mynd i'r afael â'r her sy'n wynebu busnesau bach ac yn rhoi mwy o gyfle i fusnesau Cymreig. Ar hyn o bryd, tua 50% o nwyddau a gwasanaethau a brynir gan sector cyhoeddus Cymru a gaffaelwyd gan gyflenwyr Cymreig. Rydym eisiau codi'r ffigwr hwnnw i 75% dros dymor nesaf y Cynulliad.  Byddwn yn cyflwyno modelau caffael sy'n hygyrch i fusnesau llai ac yn cynnwys cymalau cymdeithasol ac amgylcheddol i hybu datblygu cynaliadwy a datblygu ein heconomi yn gynaliadwy.

Byddwn yn gosod cymalau cymdeithasol lle bo hynny'n briodol er mwyn gofalu y telir busnesau llai yn brydlon, sy'n helpu i gefnogi cyfleoedd gwaith a hyfforddi yn lleol. Trwy fapio'r gadwyn gyflenwi, byddwn yn mynd i'r afael ag effaith 'clympio' contractau caffael ar fusnesau bach.  Byddwn yn mesur effaith caffael yn y sector cyhoeddus Cymreig ar fusnesau bach.

## Cyrchu cyllid Ewropeaidd

**Bwriad polisi cydlynu Ewrop yw cau'r bwlch economaidd rhwng rhanbarthau tlotaf a chyfoethocaf yr UE. Gyda GDP cyfartalog y pen o lai na 75% o gyfartaledd yr UE mae gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gymwys am uchafswm lefel cyllid yr UE.**

**O fewn y ddegawd nesaf mae'r Blaid am weld Cymru nad yw bellach yn dibynnu ar dderbyn cymorth ariannol fel hyn gan yr UE. Yn y cyfamser, byddwn yn brwydro i barhau â'r cyllid hanfodol hwn. Yr oedd Llywodraethau blaenorol Llafur a Llywodraeth bresennol y DG dan arweiniad y Toriaid eisiau cael gwared ar allu Cymru i dderbyn cyllid Ewropeaidd heb unrhyw warant y byddai arian y Trysorlys yn dod yn ei le.**

Bydd y Blaid mewn Llywodraeth yn arwain trafodaethau er mwyn sicrhau'r cymorth hwn gan yr UE yn y cylch gyllido nesaf. Blaenoriaeth arall i'r Blaid fydd symleiddio a mireinio'r gofynion biwrocrataidd a osodir ar ymgeiswyr a sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio yn y modd gorau i gyflawni adnewyddu economaidd a chynnal datblygiadau seilwaith.

## Sgiliau ar gyfer gweithlu cynaliadwy a hyblyg yn yr 21ain ganrif

**Wrth galon pob economi lwyddiannus mae gweithlu hyblyg a gwerthfawr sy'n meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i ateb anghenion economaidd a chymdeithasol gwlad yn awr ac yn y dyfodol. Mewn partneriaeth â chyflogwyr a darparwyr addysg, mae'r Blaid wedi cychwyn ar y gwaith o fuddsoddi mewn mentrau sgiliau pwysig i ateb gofynion economi sydd wedi'i adnewyddu ac i gydnabod pwysigrwydd dysgu gydol oes.**

Gan y rhagwelir colli 52,000 o swyddi'r sector gyhoeddus yng Nghymru dros y pedair blynedd nesaf, bydd Llywodraeth y Blaid yn gofalu bod cyllid ar gael i'r rhaglen Adapt, i roi hyfforddiant, cyngor a chyfarwyddyd i'r sector cyhoeddus, sy'n dilyn llwyddiant rhaglennau *ProAct* a *ReAct* Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector preifat.

Byddwn yn codi cyrhaeddiad yn y sgiliau fydd yn datblygu potensial Cymru am dwf economaidd – mewn pynciau megis gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg – a byddwn yn defnyddio cyllid Ewropeaidd i gefnogi ysgoloriaethau a phrentisiaethau trwy'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol newydd.

Byddwn yn mynd i'r afael â lefelau isel llythrennedd a rhifedd yn y gweithlu fel y mae trwy gyflwyno prosiectau Sgiliau Sylfaenol ar gyfer y Gweithle i gynnal o leiaf 1000 o gyflogwyr a 30,000 o weithwyr.

Byddwn yn mireinio ac yn ailgyfeirio cefnogaeth i bobl ifanc di-waith trwy ddatblygu rhaglen hyfforddi fodern, werthfawr yn y gweithle.  Ein nod fydd gwneud pobl ifanc yn fwy addas i waith a'u paratoi at fyd gwaith.

Dylai pwerau dros ddarpariaeth chwilio am waith, gan gynnwys Canolfan Byd Gwaith, gael eu datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol fel y gallwn ddatblygu ateb Cymreig i faterion cyflogaeth mewn ymateb i gynlluniau Llywodraeth y DG i breifateiddio'r gwasanaethau.

Bydd y Blaid yn ceisio sefydlu Telerau Cyflogaeth Cenedlaethol i staff mewn colegau Addysg Bellach ac fe fyddwn yn rhoi terfyn ar ymgorfforiad. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'r sector addysg a diwydiant i ddatblygu prentisiaethau newydd ac arloesol a chyrsiau Llwybrau Dysgu i sicrhau llwybr diwnïad i ddysgwyr o addysg bellach i addysg uwch.

Bydd y Blaid yn cefnogi 30,000 o brentisiaethau a byddwn yn ymestyn y rhaglen Recriwtiaid Newydd sydd yn rhoi cymhorthdal cyflog i gyflogwyr sy'n cymryd mwy o brentisiaid ifanc. Gŵyr y Blaid fod cyflogwyr yn rhoi gwerth ar brentisiaethau a'u bod yn rhoi cyfle hanfodol i bobl o bob oed sy'n ceisio gwaith.

Byddwn yn adeiladu ar waith GwirVol trwy greu cynllun cenedlaethol gwirfoddol lle gall pobl ifanc gwblhau hyd at flwyddyn o wirfoddoli cyn gadael yr ysgol. Byddwn hefyd yn edrych ar y model a arloeswyd gan City Year sydd yn helpu pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau trwy ddod yn diwtoriaid, mentoriaid a modelau rôl.

## Ein prifysgolion a'n heconomi

**Mae gan addysg uwch rôl allweddol i chwarae o ran hybu datblygiad economaidd, cymdeithasol, diwylliannol a gwleidyddol. Os yw Cymru a'i phobl i gyrraedd eu potensial llawn, rhaid i'n prifysgolion gael eu cryfhau a'u gwella. I'r Blaid, mae hyn yn golygu ehangu mynediad a sicrhau bod gennym system ymchwil a dysgu mewn addysg uwch o safon fyd-eang. Byddwn yn anelu i weld ein prifysgolion yn cystadlu gyda'r gorau yn y byd.**

**Mae'r Blaid yn cefnogi egwyddor y symudiad i aildrefnu'r sector prifysgol yng Nghymru er mwyn canolbwyntio arian prin ar ddysgu rheng-flaen  ac ymchwil yn hytrach na dyblygu biwrocrataidd. Dylai uno gael ei lywio gan ystyriaethau strategol am ffurf y sector addysg uwch Cymreig. Byddwn yn parhau i ddiwygio'r sector addysg uwch trwy geisio uno gwirfoddol a gweithio agosach.**

Bydd Llywodraeth y Blaid yn cwrdd â chost ychwanegol ffioedd dysgu i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru, os ydynt yn astudio yng Nghymru neu yn rhywle arall yn y DG. Ni fyddwn yn cefnogi unrhyw godiadau pellach mewn ffioedd dysgu i'n myfyrwyr

addysg uwch a byddwn yn ceisio dileu ffioedd dysgu pan fydd arian cyhoeddus yn caniatáu.

Byddwn yn datblygu dewisiadau astudio rhan-amser trwy gynyddu hyblygrwydd mewn addysg uwch a byddwn yn darparu benthyciadau ffioedd dysgu i fyfyrwyr rhan-amser. Byddwn yn annog prifysgolion yng Nghymru i gynnig cyrsiau israddedig dwy flynedd. Byddwn yn sicrhau mynediad hafal i addysg uwch a ffioedd dysgu llai i blant ceiswyr lloches sy'n byw yng Nghymru.

Bydd y Blaid mewn Llywodraeth yn mynd ati i gefnogi achos prifysgolion Cymru dros drefn fisa sy'n cynnal eu sylfaen o fyfyrwyr tramor. Bydd hyn yn hanfodol nid yn unig i iechyd ariannol ein prifysgolion, ond hefyd i'w hamrywiaeth a'u bywiogrwydd deallusol, ac i feithrin cysylltiadau yn y tymor hwy rhwng Cymru a'r gymuned ryngwladol.

Byddwn yn sicrhau fod Cynghorau Ymchwil yn atebol yn dilyn cwynion cyson nad yw cynigion am ymchwil sy'n canoli ar Gymru yn cael eu cyllido. Os nad oes gwelliant, byddwn yn ceisio datganoli arian ymchwil ar sail y pen. Byddwn yn sicrhau fod y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil hefyd yn cymryd ymchwil sy'n canoli ar Gymru o ddifrif.

## Ein Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**Mae'r Blaid yn falch o'n llwyddiant wrth gyflwyno'r sefydliad addysg uwch Cymraeg, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.**

Byddwn yn cadw llygad barcud ar gynlluniau gweithredu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a byddwn yn gofalu fod ganddo ffrwd annibynnol o gyllid a chofrestr myfyrwyr. Byddwn yn cryfhau gallu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynllunio'n strategol ar gyfer datblygu yn y dyfodol yn hytrach na dim ond ymateb i gynigion gan adrannau neu ysgolion penodol. Bydd y Blaid yn sefydlu system debyg i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gyfer addysg bellach yng Nghymru.

## Seilwaith trafnidiaeth fodern ac integredig i Gymru gyfan

**Mae Plaid Cymru yn Llywodraeth Cymru wedi newid yn sylweddol y modd mae trafnidiaeth yn cael ei gynllunio, ei gostio a'i gyflwyno. Am y tro cyntaf, mae mwy o adnoddau nawr yn cael eu neilltuo i drafnidiaeth integredig – rheilffyrdd, bysiau, cerdded, beicio, cyfnewidfeydd, a gwybodaeth amser real – nac i ffyrdd yn unig.**

**Gyda San Steffan yn cyhoeddi toriadau milain dros y pedair blynedd nesaf i wariant cyfalaf Llywodraeth Cymru, bydd cyflwyno Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Llywodraeth y Blaid yn her. Ac eto,**

**bydd gwell seilwaith trafnidiaeth i Gymru yn dal yn flaenoriaeth i’r Blaid.**

Bydd Llywodraeth y Blaid yn cynyddu gwariant ar gludiant cyhoeddus integredig i 65% o’r gyllideb trafnidiaeth erbyn diwedd tymor nesaf y Cynulliad.

Mae angen trawsnewid masnachfraint rheilffyrdd Cymru. Byddwn yn ceisio sicrhau bod cyfrifoldeb am y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd yn cael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru a byddwn yn creu cwmni nid-am-elw-dosbarthadwy i redeg y gwasanaeth.

Bydd y Blaid hefyd yn gorffen y broses o ddatganoli cyfrifoldeb a chyllid Network Rail er mwyn cwblhau’r gwaith o drydaneiddio Llinell y Great Western i Abertawe, trydaneiddio Rhwydwaith Cledrau’r Cymoedd, a rhoi cynllun mewn lle i drydaneiddio Prif Linell Gogledd Cymru a Llinell y Mers.

Plaid Cymru a gyflwynodd y gwasanaeth trên cyflym unswydd cyntaf o’r de i’r gogledd. Byddwn yn sicrhau bod amseroedd teithio yn cael eu lleihau ac y bydd gwelliannau llinell yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau ei fod yn gwasanaethu Wrecsam a gogledd-ddwyrain Cymru yn fwy effeithiol. Byddwn yn sefydlu gwasanaeth ategol yn y bore o’r de i’r gogledd.

Byddwn hefyd yn cynyddu amlder gwasanaethau rheilffordd rhwng Caerdydd a gorllewin Cymru, ac o Abergwaun i’r dwyrain, ac yn edrych i mewn i gyfleoedd i gyflwyno cysylltiadau rheilffordd ysgafn mewn rhannau o’r wlad yn ogystal â galluogi gwasanaethau uniongyrchol rhwng Glyn Ebwy a Chasnewydd. Byddwn yn cefnogi mwy o wasanaethau ar draws canolbarth Cymru. Yn dilyn llwyddiant gwasanaeth Glyn Ebwy a lle bo achos da dros wneud hynny, byddwn yn ail-agor gwasanaethau ar reilffyrdd a gaewyd.

Byddwn yn ceisio pwerau pellach i reoleiddio gwasanaethau bysus a sicrhau fod modd i deithwyr deithio ar fysus i bob rhan o Gymru. Byddwn hefyd yn trafod gyda’r cwmnïau bysus i sicrhau gwell gwybodaeth i deithwyr a cherbydau mwy modern. Byddwn yn parhau i ymestyn model cludiant cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig Bwcabus ac fe fyddwn yn gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i gefnogi cludiant cymunedol yng Nghymru. Mae’r Blaid wedi ymrwymo i gadw tocynnau rhad i bobl oedrannus ac anabl yng Nghymru. Byddwn yn defnyddio’r dechnoleg orau, megis cardiau call, i sicrhau y defnyddir arian yn ddoeth.

Byddwn yn gweithredu gwasanaeth ‘TrawsCymru’ newydd, rhywbeth hollol newydd yn lle bysus Trawscambria gyda gwell cysylltiadau trafnidiaeth i reilffyrdd a pharcio-a-theithio, ac hefyd, cerbydau newydd a dewisiadau tocynnau.

Adolygir gwerth y gwasanaeth awyr o’r gogledd i’r de a’r angen amdano eto ar derfyn y contract presennol.

Byddwn yn cychwyn trafodaethau am drosglwyddo perchenogaeth, neu cyd-perchnogaeth Pont Hafren gyda'r nod o leihau'r tollau yn sylweddol a defnyddio'r arian a godir i gynnal y pontydd ac uwchraddio seilwaith Cymru.

Bydd ymdrin â thagfeydd ar ffin y gogledd-ddwyrain a'r M4 yn parhau yn flaenoriaeth i'r Blaid; felly hefyd barhau i wella cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y de a'r gogledd. Byddwn yn parhau gyda'r rhaglen o welliannau i'r A465 Blaenau'r Cymoedd erbyn 2020, gwelliannau i'r A477 a'r A40 yn y gorllewin, a'r A470 a'r A487 yn y gogledd.

Byddwn yn cyflwyno ein cynllun Trefi Teithio Cynaliadwy i drefi mwy trwy gyflwyno gwasanaethau cludiant cyhoeddus o safon a gwell darpariaeth i feicwyr a cherddwyr, gan gynnwys rhwydwaith estynedig o lwybrau, twnneli rheilffordd a llwybrau tynnu. Byddwn hefyd yn ceisio ymestyn a sicrhau gwell integreiddio ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol. Byddwn yn cyflwyno cyfyngiad cyflymdra o 20mya ger ysgolion a rhai mannau preswyl.

Byddwn yn cefnogi buddsoddi mewn seilwaith i gerbydau wedi'u pweru gan drydan. Y nod fydd sicrhau fod holl geir Llywodraeth Cymru yn gerbydau trydan erbyn 2020.

## Twristiaeth: dangos i'r byd beth sydd gan Gymru i'w gynnig

**Mae'r diwydiant twristiaeth yn cyfrannu biliynau o bunnoedd y flwyddyn i economi Cymru ac uchelgais y Blaid yw tyfu'r economi ymwelwyr er mwyn manteisio ar dreftadaeth naturiol, hanesyddol a diwylliannol eithriadol Cymru. Mae'r diwydiant hefyd yn gyflogwr mawr ac yn chwarae rhan bwysig i gynnal llawer o'n cymunedau gwledig ac arfordirol.**

Yn y Llywodraeth nesaf, bydd y Blaid yn buddsoddi £3m y flwyddyn yn ychwanegol yn y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth newydd i ganiatáu i fusnesau twristiaeth gael buddsoddiadau cyfalaf newydd, i wella safonau a chefnogi hyd at 1,000 o swyddi lleol newydd mewn adeiladu a gweithgareddau eraill.

Byddwn yn ceisio gwneud y mwyaf o effaith ein treftadaeth adeiledig ar brofiad ymwelwyr â Chymru. Credwn y dylid cael cysylltiad agos rhwng cadw a datblygu treftadaeth adeiledig Cymru â'n nod am adfywio. Byddwn yn parhau i gefnogi datblygu Canolfannau Rhagoriaeth Twristiaeth mewn ardaloedd arfordirol a mewndirol yng Nghymru trwy fanteisio i'r eithaf ar gyllid Ewropeaidd. Byddwn hefyd yn denu mwy o fuddsoddi yn y farchnad gweithgareddau awyr agored er lles pobl leol yn ogystal â thwristiaid.

Byddwn yn cefnogi mwy o ddatblygu marchnata twristiaeth a chryfhau "brand Cymru" trwy raglen "Dathlu

Cymru” a weithredir trwy gydol tymor nesaf y Cynulliad. Byddwn yn hyrwyddo twristiaeth ymhellach ledled Cymru.

Byddwn hefyd yn ceisio gwella ymwybyddiaeth o’r bwyd a’r diodydd Cymreig sydd ar gynnig i ymwelwyr trwy well marchnata a brandio gartref a thramor. Byddwn yn cefnogi’r diwydiant tafarndai a meicro-fragdai yng Nghymru trwy geisio amddiffyn hunaniaeth unigryw ein diwydiant gwin, cwrw a seidr. Byddwn yn ymgorffori anghenion ein tafarndai llai, annibynnol yn ein Strategaeth Manwerthu.

Byddwn yn buddsoddi yn Strategaeth Digwyddiadau Mawr Llywodraeth y Blaid er mwyn sicrhau ei llwyddiant. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid yn y sector gyhoeddus, preifat a’r trydydd sector i adeiladu safle Cymru fel cyrchfan o’r safon uchaf i brif ddigwyddiadau chwaraeon, diwylliannol a chelfyddydau.

## Ein Pobl CymruWell// Gofalu am genedl iachach

**Mae’r Blaid eisiau gweld Cymru lle gall ei holl ddinasyddion fyw bywydau llawn ac iach - gwlad sy’n enwog am ansawdd bywyd y bobl sy’n byw yma. Cred y Blaid, gyda mwy o ganolbwynt ar les gydol oes - ar atal yn ogystal â gwella - y gall Cymru fod yn wlad iachach, ond mae graddfa’r her iechyd yr ydym yn ei hwynebu fel cenedl yn amlwg.**

**Daeth clefydau cronig yn nodwedd o gymunedau Cymru: mae gordewdra, clefyd y galon, canser a diabetes yn or-gyffredin. Mae gan ein GIG rhagorol rôl hanfodol a byddwn yn parhau, fel y gwnaethom dros y pedair blynedd diwethaf mewn Llywodraeth, i amddiffyn mynediad at wasanaethau iechyd lleol mewn cymunedau gwledig a threfol. Ond gyda chost cynyddol salwch cronig a phoblogaeth sy’n heneiddio, allwn ni ddim fforddio gwyro sylw oddi wrth achosion creiddiol afiechyd, ac ymdrin â’r pwysau sy’n wynebu’r system ofal.**

Yn y Llywodraeth nesaf, bydd y Blaid yn ailgyfeirio adnoddau ac yn buddsoddi mwy nac erioed o arian i greu system o ofal o’r radd flaenaf i bobl sy’n byw gyda chanser a chyflyrau cronig, gan gynnwys goroeswyr strôc a’r rhai â chlefyd y galon. Bydd ein hagwedd o ganoli ar y claf yn dibynnu ar ofal personol unigol trwy weithiwr allweddol a chyngor o bwynt diagnosis ymlaen. Cefnogir cleifion i wneud penderfyniadau am eu hanghenion cymdeithasol, megis incwm a thai, yn ogystal â gwella eu profiadau a’u deilliannau meddygol.

Byddwn yn ail-drafod contractau i feddygon teulu, deintyddion, optometregwyr, orthodontyddion a fferyllwyr cymunedol, a bydd y Blaid yn cyfarwyddo pob Bwrdd Iechyd Lleol i gynnal adolygiad manwl o ofal sylfaenol a gofal cymunedol. Bydd hyn yn arwain at wella hygyrchedd meddygon a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill

a bydd yn ateb anghenion cleifion a chymunedau yn well.

Byddwn hefyd yn rhoi blaenoriaeth i wella gwasanaethau brys Tu Allan i Oriau ledled Cymru, gan ddefnyddio'r model cydweithredol fel esiampl o'r arfer gorau. Byddai hwylustod mynd at y gwasanaethau hyn yn lleihau'r pwysau ar adrannau damweiniau a brys a'r gwasanaeth ambiwlans.

Yr ydym yn parhau'n ymrwymedig i ddarpariaeth gwasanaethau mor agos ag sydd modd at gartrefi pobl gan ysbytai ardal cyffredinol. Lle bo angen i bobl deithio am driniaeth arbenigol, byddwn yn hybu dulliau cydweithredol o weithio, gyda chymaint o'r driniaeth yn digwydd mor agos at y cartref ag sydd modd.

Byddwn yn monitro cyflwyno'r Cynllun Iechyd Gwledig ac yn gofalu nad yw pobl sy'n byw yn ein cymunedau gwledig dan anfantais oherwydd anawsterau daearyddol i gyrraedd gwasanaethau.

Byddwn yn gofalu bod Galw Iechyd Cymru yn parhau i chwarae rhan bwysig i gynnal a darparu triage cychwynnol am ofal y tu allan i oriau.

Byddwn yn parhau i ddatblygu targedau deallus sydd nid yn unig yn mesur proses ond yn bwysicach, profiad a deilliannau'r claf.  Byddwn yn gweithio i leihau amseroedd aros gyda blaenoriaeth ar unwaith i sicrhau nad oes raid i'r un claf aros mwy na 26 wythnos o gyfeirio hyd at driniaeth.

Byddwn yn gweithredu Strategaeth Genedlaethol i'r Byddar fydd yn sicrhau cydraddoldeb cyfle, gwell cefnogaeth clywed, ac yn gwella ansawdd bywyd y 480,000 o bobl fyddar a thrwm eu clyw yng Nghymru.

Byddwn yn hybu gofal llygad da ac yn gwneud i ffwrdd â cholli golwg y mae modd ei osgoi trwy fuddsoddi mewn swyddogion Cyswllt Clinigau Llygaid ledled Cymru a gwell darpariaeth adsefydlu.

Byddwn yn sicrhau fod pobl sy'n byw gyda chlefydau'r cyhyrau yng Nghymru yn gallu cyrchu gofal, cefnogaeth a chyngor amlddisgyblaethol.  Byddwn yn sefydlu gwasanaeth gofal niwrofeddygol arbenigol i gynnal teuluoedd a chydgordio gwasanaethau ac ar yr un pryd yn lleihau yn sylweddol gost derbyniadau brys heb eu cynllunio.

Byddwn yn pwyso ar awdurdodau lleol i weithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau hawliau lles a budd-daliadau wedi eu targedu at bobl ag anableddau ac afiechyd ledled Cymru.

Byddwn yn cyflawni addewidion Llywodraeth Cymru i wella gwasanaethau i bobl â chyflyrau ac anafiadau niwrolegol.

Byddwn yn gweithio gyda'r sector gwirfoddol tuag at agwedd gyson at gyllido hosbisau a gofal lliniarol yn y gymuned. Byddwn yn gofalu bod

y sgiliau meddygol angenrheidiol yn bodoli ym mhob cymuned fel y gall pobl farw yn eu cartrefi eu hunain os mai dyna eu dymuniad.

## Gofal iechyd yn eich cymuned, pan fydd arnoch ei angen

**Bydd gwell darpariaeth iechyd cymunedol yn cyflymu rhyddhau pobl o ysbytai, yn darparu adsefydlu yng nghartrefi pobl ac yn lleihau'r nifer sy'n gorfod dychwelyd i'r ysbyty.**

Credwn fod gwasanaethau cymunedol rhagorol , megis therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion yn hanfodol ar gyfer cymorth parhaus i gleifion a'u teuluoedd. Byddwn yn gweithredu'r Strategaeth Nyrsio Cymunedol.

Bydd y Blaid yn annog fferyllwyr i ymwneud mwy â'u cymunedau fel gweithwyr ac ymgynghorwyr iechyd cyhoeddus lleol. Byddwn hefyd yn integreiddio gwaith fferyllwyr cymunedol i'n cynlluniau gofal i'r sawl sydd â chanser a chyflyrau cronig.

## Canoli ar well daioni

**Byddwn yn parhau i gyflwyno ein gwasanaeth Iechyd Cymunedol newydd sydd yn cynnwys mwy o nyrsys ysgol, dal i fuddsoddi mewn nyrsio cymunedol, gwiriadau iechyd yn y gwaith a datblygu 'Canolfannau Lles Cymunedol'. Bydd y canolfannau hyn yn cyflwyno mwy o driniaethau i gleifion allanol y tu allan i ysbytai ac yn gwella gofal parhaus trwy well integreiddio gofal iechyd a chymdeithasol.**

Byddwn hefyd yn cyflwyno hawl i Gynlluniau Iechyd Personol a gwiriad blynyddol fydd yn cynnwys ymarfer, deiet a gofal arbenigol. Byddwn yn sefydlu system integredig o gofnodion iechyd cleifion fel bod gwybodaeth am gleifion ar gael ym mhob lleoliad gofal perthnasol. Byddwn yn gofalu fod gan bob claf yng Nghymru fynediad at eu cofnodion am ddim.

Byddwn yn amddiffyn presgripsiynau am ddim. Gwyddom eu bod o les i bawb yng Nghymru, yn enwedig  y rhai sydd â salwch cronig.

Byddwn yn cwblhau'r broses o ddeddfu i gyflwyno system o gydsyniad tybiedig i roi organau.

Byddwn yn parhau i gyflwyno Fframwaith Anhwylderau Bwyta ar gyfer Cymru. Bydd gan feddygon teulu a'u timau rôl bendant o ran gwneud diagnosis, asesu a chefnogi cleifion gydag anhwylderau bwyta, a bydd Gwasanaethau Iechyd Meddwl lleol yn rhoi cyngor, asesu ac ymyriad uniongyrchol. Bydd y Blaid yn diogelu'r cyllid i'r gwasanaethau hyn ac yn gweithio gyda'r sector i edrych i mewn i bosibilrwydd creu uned i gleifion mewn ysbytai.

Byddwn yn mynnu fod pob deintydd sy'n derbyn hyfforddiant trwy'r GIG yn darparu isafswm cyfran o'u hamser yn gweithio dan amodau'r GIG.

Byddwn yn galluogi prif nyrsys â gofal mewn ysbytai i gymryd y cyfrifoldeb am bopeth ar eu ward gan gynnwys glendid a hylendid; amddiffyn amser prydau cleifion ac ansawdd y bwyd; codi safonau gofal; a chynnal urddas a pharch cleifion.

Bydd y Blaid hefyd yn sicrhau, er mwyn cynnal y safonau uchaf o lendid, fod Cymhwyster Medr Gweithwyr Glanhau yn cael ei fabwysiadu ar draws y GIG er mwyn gwneud yn siŵr fod pawb sy'n glanhau wardiau yn derbyn isafswm safon o hyfforddiant.

## Gwella gwasanaethau iechyd meddwl i bawb

**Bydd y Blaid yn gweithredu'r Mesur Iechyd Meddwl sy'n rhoi hawliau newydd o ran asesu, trin ac eiriolaeth i bobl â chyflyrau iechyd meddwl.**

Byddwn yn dal i ddiogelu cyllid i wasanaethau iechyd meddwl ac yn sicrhau y darperir cynlluniau gofal a thriniaeth iechyd meddwl mewn ysbytai.

Byddwn yn rhoi'r gallu i weithwyr adrannau brys a damweiniau sgrinio pobl am broblemau iechyd meddwl ac yn sicrhau bod y cyfeirio cywir yn cael ei wneud.

Byddwn yn cyflwyno gweithwyr cyswllt i roi gwybodaeth a chefnogaeth i gleifion iechyd meddwl a'r sawl sy'n gofalu amdanynt yn ogystal â help i gyrraedd gwasanaethau arbenigol.

Byddwn yn gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Arddegau yng Nghymru, ac yn gweithio tuag at weithredu argymhellion adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru / Arolygiaeth Iechyd o Iechyd Meddwl Plant a'r Arddegau.

Bydd rhoi diwedd ar wardiau rhyw cymysg i gleifion iechyd meddwl mewn ysbytai yn flaenoriaeth.

Byddwn yn deddfu i roi'r un hawliau parthed mynediad at driniaeth i bobl sy'n byw gyda phroblemau difrifol camddefnyddio sylweddau cronig ag a ddarperir i bobl â phroblemau iechyd meddwl. Byddwn yn cryfhau'r pwyslais ar atal camddefnyddio sylweddau a thriniaeth am hyn.

## Gwasanaethau iechyd a gofal mwy effeithiol – i chi

**Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau trefniadau trawsffiniol integredig newydd i gomisiynu, caffael a chyflwyno gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Blaid eisiau gweld gwelliannau mawr mewn cydweithredu rhwng gwasanaethau cymdeithasol, byrddau iechyd lleol a phartneriaid allweddol eraill. Byddwn yn cryfhau cyfrifoldeb corfforaethol am safonau gwasanaeth ar sail deilliannau. Bydd y cynigion am y strwythur newydd wedi eu cwblhau erbyn diwedd 2011.**

Byddwn yn pasio'r cyfrifoldeb am

ddarparu gwasanaethau ambiwlans i Fyrddau Iechyd Lleol ac yn dileu'r Ymddiriedolaeth Ambiwlans. Byddwn yn cefnogi'r Gwasanaeth Ambiwlans Awyr ac yn gweithio i integreiddio'r Ambiwlans Awyr gyda gwasanaethau brys eraill.

Byddwn yn torri nifer y rheolwyr canol yn y GIG o 10% yn nhymor nesaf y Cynulliad ac fe wnawn Brif Weithredwyr pob Bwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth ac Awdurdod Lleol yn fwy atebol yn gyhoeddus am gyflawni.

Byddwn yn dweud wrth y Prif Swyddog Meddygol a'r Prif Swyddog Nyrsio yng Nghymru i weithio gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CAGGCC) i gyfarwyddo archwiliad ansawdd fel bod safonau gofal yn cael eu monitro, ac i wneud yn siŵr nad yw nifer y staff rheng flaen yn cael ei leihau ar draul gofal clinigol. Byddwn yn adolygu pwerau Arolygiaeth Iechyd Cymru er mwyn gofalu ei fod yn addas at y diben.

Byddwn yn gweithio gyda'r Comisiynydd Iaith Gymraeg i gyflwyno safonau newydd o ran darparu gwasanaethau iechyd a gofal yn Gymraeg, a datblygu cyfleoedd newydd i weithwyr iechyd proffesiynol gael eu hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn sicrhau yr hyfforddir gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol dwyieithog i ddarparu gofal yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Byddwn yn creu Fferyllfa Genedlaethol i Gymru fel pwynt caffael canolog i leihau taliadau a gwneud y mwyaf o'r gadwyn gyflenwi. Byddwn yn lleihau gwastraff yng nghadwyn gyflenwi cyflenwadau clinigol ac anghlinigol.

## Atal salwch

**Bydd Llywodraeth y Blaid yn amlinellu gweledigaeth tymor-hir i atal afiechyd.**

Byddwn yn deddfu i wahardd arddangosfeydd baco a pheiriannu gwerthu sigarennau er mwyn troi plant yn arbennig draw oddi wrth ysmygu. Byddwn hefyd yn deddfu yn erbyn ysmygu mewn ceir pan fo plant yn bresennol a gwahardd ysmygu mewn caeau chwarae.

Byddwn hefyd yn  cynnal cyflwyno deddfwriaeth am argaeledd, labelu a chost alcohol yng Nghymru.  Dylid cyfyngu ar arddangosfeydd alcohol i un man mewn siopau, gyda rhybuddion iechyd clir. Dylid cyflwyno isafswm pris o 50c yr uned am alcohol.

Byddwn yn gorffen y broses o wahardd defnyddio gwelyau haul gan bobl dan 18 oed ac fe fyddwn yn gorffen y broses o wahardd salonau gwelyau haul heb staff. Byddwn yn gwahardd gwelyau haul o ganolfannau hamdden llywodraeth leol.

Gwyddom fod gordewdra yn broblem gynyddol yng Nghymru. Mae'r Blaid eisiau i'n pobl ifanc ddod yn fwy ffit, yn iachach a hapusach - a chael hwyl wrth wneud hynny. Trwy'r rhaglen "MEND", byddwn yn helpu'r plant a'u rhieni i

ddysgu am fwyta'n iach a mwynhau ymarfer corff. Byddwn yn datganoli swyddogaethau'r Asiantaeth Safonau Bwyd i Gymru.

Byddwn yn cryfhau gwasanaethau iechyd rhyw, yn arbennig i bobl ifanc, ac yn gofalu fod arbenigwr iechyd rhyw yn nhîm nyrsio ysgol pob sir. Byddwn yn gofalu bod yr ysgolion yn cyflwyno addysg ataliol ar drais yn y cartref, cydraddoldeb rhywiau, perthynas iach a hunan-barch.

## Gofalu am eraill

**Byddwn yn cynnal ein hymrwymiad i hawliau gofalwyr a byddwn yn gweithredu ac yn monitro'n gadarn datblygiad y Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr.**

Byddwn yn gweithio i gefnogi gofalwyr di-dâl ledled Cymru trwy wella eu gwasanaethau lleol a helpu gofalwyr i wneud dewis go iawn wrth gyfuno gofal a gwaith. Bydd Plaid Cymru yn parhau i osod cap cenedlaethol ar gost wythnosol gwasanaethau gofal dibreswyl i bobl hŷn ac anabl. Byddwn hefyd yn atal cynghorau rhag codi am gludiant i ganolfannau dydd.

Bydd y Blaid yn gweithio i ddileu oedi cyn trosglwyddo gofal, yn gwella gwasanaethau ac yn codi'r parch at weithwyr cymdeithasol a chymhorthwyr gofal. Byddwn yn adolygu'r canllawiau ar ofal parhaus a sicrhau fod y ddarpariaeth yn gyson ar draws awdurdodau lleol.

Bydd y Blaid yn archwilio'r achos dros greu gwasanaeth eiriol cynhwysfawr i bobl hŷn a symleiddio mynediad at gefnogaeth  a gwybodaeth.

Byddwn yn sicrhau fod yr holl benderfyniadau am dalu am wasanaethau ac am delerau ac amodau staff yn cael eu gwneud yng Nghymru.  Byddwn yn deddfu i sefydlu cofrestr cenedlaethol gorfodol i bob gweithiwr gofal er mwyn sicrhau safonau gofal uchel.

Byddwn yn cyflwyno cyfres o Delerau ac Amodau Cenedlaethol i weithwyr cymdeithasol. Byddwn yn datblygu graddfeydd gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol fel y gall gweithwyr cymdeithasol fwrw ymlaen yn eu gyrfaoedd heb orfod gadael gwaith rheng-flaen.  Byddwn yn darparu Cofnod Gofal Cymdeithasol i ategu'r Cofnod Iechyd Unigol.

Trwy NISCHR byddwn yn sefydlu Canolfan Ragoriaeth mewn Ymchwil Gwasanaethau Cymdeithasol i gryfhau ansawdd a swm ymchwil gofal cymdeithasol a datblygu galluedd.

Byddwn yn dileu profion modd i'r bobl sydd angen Grant Cyfleusterau i'r Anabl.

Yn y tymor hwy, erys y Blaid yn ymrwymedig i ddarparu gofal am ddim a gwnawn hyn yn flaenoriaeth pan fydd Cymru wedi ei chyllido yn deg gan Drysorlys y DG.

# CymruWell//
# Rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i'n plant

**Dylai ein plant, waeth beth fo'u cefndir neu incwm y teulu, gael yr un cyfle i gyrraedd eu llawn botensial a thyfu mewn sgiliau a galluedd. Yn rhy aml, mae doniau ein plant yn cael eu mygu, eu creadigrwydd yn cael ei lethu, a'u huchelgais yn cael ei wasgu. Mae gormod o athrawon talentog wedi colli eu cymhelliant, gan amddifadu Cymru a'r byd o'n hased mwyaf gwerthfawr: ein creadigrwydd.**

**Yng Nghymru, rydym yn ymwybodol o werth addysg, ond nid ydym wedi creu system addysg sydd yn wir yn adlewyrchu hynny - ac sydd yn deilwng o'n pobl ifanc. Mae'n sgandal llwyr fod gan 1 o bob 4 oedolyn yng Nghymru oed darllen ac ysgrifennu o 11 neu lai. Ac eto, ni wnawn lwyddo i godi ein cymunedau allan o dlodi neu greu economi gref a chynaliadwy os nad yw ein pobl ifanc wedi eu paratoi'n dda am fywyd a'r byd gwaith. Mae'r ffaith fod tua 10% o'n pobl ifanc heb fod mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant yn wastraff llwyr o ieuenctid ein cenedl.**

## Addysg – cyrraedd ein llawn botensial

**Mae'n amser galluogi a rhyddhau myfyrwyr ac athrawon i ddysgu gyda'r arfau, yr anogaeth a'r parch sy'n caniatáu iddynt gynhyrfu, symbylu a chyflwyno safonau uwch.**

**Ein huchelgais yw gweld Cymru, yn y ddegawd hon, yn ymddangos ochr yn ochr â chenhedloedd gorau Ewrop o ran cyrhaeddiad addysgol.**

Yn y Llywodraeth nesaf, bydd y Blaid yn canolbwyntio ar sicrhau fod ein pobl ifanc yn gadael yr ysgol wedi eu symbylu ac yn barod i fyd gwaith. Byddwn yn gwneud gwella sgiliau sylfaenol ein plant mewn darllen, ysgrifennu, cyfrif a sgiliau cyfrifiadur yn brif flaenoriaeth.

Ein nod yw haneru cyfraddau anllythrennedd ac anrhifedd ymysg y plant sy'n gadael yr ysgol gynradd yng Nghymru erbyn 2016 a dileu'r broblem fwy neu lai erbyn 2020, gan sicrhau fod o leiaf 95% o'r holl blant yn gadael yr ysgol gynradd yn llythrennog a rhifog i'r safonau a ddisgwylir o rywun 11 oed.

Bydd y Blaid yn parhau i wrthwynebu marchnata addysg. Rydym yn gwrthod modelau ysgolion 'rhydd', ysgolion 'sylfaen' ac academïau. Yn hytrach, byddwn yn bod yn galed ar safonau addysg gwael ac yn ymdrin â than gyllido ysgolion trwy ailgyfeirio adnoddau o rheoli a biwrocratiaeth i'r ystafell ddosbarth ac yn cynhyrchu canllawiau i wasanaethau cymorth awdurdodau lleol.

Bydd dysgu da a safonau dysgu gwell yn hanfodol i lwyddiant ymgyrch llythrennedd a rhifedd Cymru. Nid yw'n ddigon olrhain cynnydd plant trwy gydol eu haddysg: rhaid i ni ymyrryd yn gynnar i roi i bob plentyn y

cyfleoedd gorau posibl. Yn ychwanegol at fuddsoddi mwy mewn hyfforddi a mentora yn y dosbarth, byddwn hefyd yn rhoi mwy o ryddid i athrawon arloesi ac ysbrydoli. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn meicro reoli'r rhaglen. Yn hytrach, bydd ysgolion yn dyfeisio cynlluniau clir i gyrraedd targedau, a bydd disgwyl i brifathrawon chwarae rhan uniongyrchol yn sicrhau llwyddiant y cynllun, a bydd Estyn yn chwarae rhan wrth fesur y canlyniadau.

Gwyddom fod mwyafrif yr athrawon yn weithwyr proffesiynol brwd a thalentog sydd yn haeddu parch. Ond ni fydd y Blaid yn derbyn addysgu gwael ar unrhyw lefel, ni fyddwn yn goddef arweinyddiaeth wael gan brifathrawon, ac ni fyddwn yn derbyn arferion annigonol gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Y system sy'n cyflwyno addysg, nid dim ond ysgolion unigol. Rhaid rhyddhau ein hathrawon a'n harweinwyr gorau o'r angen i wastraffu ynni creadigol ar frwydro am gefnogaeth ac adnoddau i'w hysgolion.

Byddwn yn cyflwyno arolygiadau cadarnach, amlach a mwy hyblyg i athrawon ac ysgolion, yn anelu at wella perfformiad  a deilliannau i blant, yn ogystal â dal unrhyw broblemau yn gynnar.

Bydd y Blaid yn edrych i weld a ddylid ymestyn cyfnod o hyfforddiant i athrawon newydd ac os oes angen darparu gwell mentora a gwerthuso yn ystod blynyddoedd cynnar gyrfa broffesiynol athro neu athrawes. Byddwn yn blaenoriaethu mwy o ddatblygu proffesiynol parhaus i'r athrawon hynny sydd eisiau datblygu sgiliau.

Bydd y Blaid yn ail-gyflunio gwasanaethau cynnal a gweinyddu ar draws awdurdodau lleol i sicrhau fod mwy o arian yn cyrraedd dosbarthiadau. Byddwn yn archwilio model cyllido sy'n canoli fwy ar ddalgylchoedd yn hytrach na gwariant y disgybl.

Byddwn yn tynnu cost adeiladau ysgol o'r gyllideb addysg ac yn eu trin fel asedau cymunedol yng nghyllidebau awdurdodau lleol. Byddwn yn cefnogi datblygu ysgolion gyda chanolbwynt cymunedol.

Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau trefniadau newydd, integredig a thrawsffiniol i addysg.  Byddwn yn mynnu cael mwy o gydweithredu rhanbarthol ar draws awdurdodau addysg lleol a phartneriaethau allweddol eraill.

Ni fydd y Blaid yn cilio oddi wrth ei chyfrifoldeb i drawsnewid ysgolion sy'n methu.  Byddwn yn cyfarwyddo Estyn i chwarae mwy o ran mewn monitro a gwella safonau ysgolion sy'n methu. Mae eu cau, yn unol â chynlluniau Llafur, yn gyfystyr â chosbi teuluoedd, athrawon a chymunedau am arweinyddiaeth wan eraill.

Fel blaenoriaeth, byddwn yn adolygu oriau ysgol ac amseroedd tymhorau ysgol i weld ai dyma'r trefniadau gorau i ateb anghenion system

addysg yn yr 21ain ganrif.

Yr ydym yn gwrthod yn bendant dablau cynghrair i Gymru gan gynnwys cynlluniau Llafur i gyflwyno system genedlaethol i raddio ysgolion. Fodd bynnag, byddwn yn sicrhau y paratoir adroddiadau blynyddol i rieni yn amlinellu perfformiad pob ysgol.

Byddwn yn adolygu gwaith Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, ac yn hytrach yn ystyried sefydlu Cyngor Addysg Cyffredinol i Gymru.

Byddwn hefyd yn adolygu swyddogaethau cyrff llywodraethu ac yn asesu a ydynt yn y lle gorau i roi cefnogaeth a chraffu digonol i ysgolion.

Byddwn yn ceisio datganoli tâl ac amodau i athrawon ac yn trafod gyda'r undebau llafur i gytuno ar delerau cenedlaethol i Gymru. Rydym yn credu fod darnio'r strwythur ysgolion yn Lloegr yn awr yn rhoi cyfle i ni sefydlu set genedlaethol o delerau ac amodau yma yng Nghymru. Byddwn yn sicrhau tâl ac amodau teg i staff cymorth, athrawon cyflenwi ac athrawon asiantaeth.

Bydd y Blaid yn adolygu'r Cwricwlwm Cenedlaethol i sicrhau ei fod yn cwrdd â'n nod o godi sgiliau sylfaenol, gwella perfformiad Cymru mewn pynciau STEM ac ehangu dealltwriaeth pob plentyn o Gymru a'r byd mewn perthynas â hanes, diwylliant a dinasyddiaeth. Byddwn yn cefnogi dysgu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd. Byddwn yn parhau i ddiwygio a datblygu Bagloriaeth Cymru.

Byddwn yn sefydlu un corff i gydgordio a mireinio'r gwaith a wneir i helpu ein pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant.

## Dysgu Cymraeg i'r genhedlaeth nesaf

**Byddwn yn ymateb i'r galw am ddarparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg trwy gynyddu nifer y plant a ddysgir yn Gymraeg a mynd dros y targedau yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.**

Bydd y Blaid yn gofalu bod awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswydd i fesur y galw am addysg Gymraeg ac ymateb yn gadarnhaol i'r galw. Byddwn yn monitro'n ofalus ganlyniad yr arolygon hyn, ac os bydd angen, byddwn yn deddfu fel yr atebir anghenion disgyblion a rhieni. Byddwn hefyd yn diogelu'r ffrwd gyllido i'r Mudiad Ysgolion Meithrin. Byddwn yn cynnal adolygiad brys i gategoreiddio ieithyddol ysgolion.

Byddwn yn cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio TGAU a chymwysterau 16-19 trwy gyfrwng y Gymraeg a gwella darpariaeth addysg Gymraeg i blant ag Anghenion Addysg Arbennig.

Bydd y Blaid yn gwella'r system i ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Rhaid i ysgolion gael cefnogaeth a chyngor er mwyn sicrhau bod yr holl bolisïau addysg yn gydnaws â darpariaeth ddwyieithog ac fe fyddwn yn gwella

hyfforddiant i athrawon sydd yn dysgu Cymraeg fel ail iaith. Byddwn yn edrych ar gyflwyno Cymraeg fel pwnc craidd ar lefel TGAU a datblygu cyrsiau galwedigaethol ôl-16 dwyieithog.

## Cefnogi ein plant a'n pobl ifanc

Cred y Blaid mai mwy o ailddosbarthu yw'r allwedd i fynd i'r afael â thlodi plant - nid dim ond creu cyfoeth ond ei rannu yn fwy cyfartal. Hyd nes  y bydd Llywodraeth y DG yn cydnabod hyn yn eu polisïau trethu a lles, yna bydd cyrraedd y nod cytunedig o ddileu'r broblem erbyn 2020 yng Nghymru yn dal yn her. Ni fydd hyn yn ein hatal mewn Llywodraeth rhag gwneud popeth yn ein gallu i gwrdd â'r ymrwymiad hwn.

Bydd y Blaid yn rhoi ymdrin â thlodi plant wrth galon yr holl benderfyniadau mae'n wneud mewn Llywodraeth. Byddwn yn datblygu cerrig milltir 'tlodi difrifol' yn y Strategaeth Tlodi Plant ac fe wnawn bopeth i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Byddwn yn pwyso am symud ymaith oddi wrth brofion modd cymhleth a drud am fudd-daliadau. Condemniwn y penderfyniad i roi diwedd ar fudd-dal plant cyffredinol.

Byddwn yn diogelu'r Fenter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd a'r Cynllun Llaeth Ysgol yn ystod y Llywodraeth nesaf. Credwn fod iechyd a lefelau canolbwyntio plant yn gwella drwy'r cynlluniau yma, ac y bydd hyn yn cyfrannu tuag at ddysgu a chyrhaeddiad addysgiadol gwell. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi pobl ifanc o deuluoedd difreintiedig gyda'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA).

Bydd y Blaid yn diwygio Cymunedau'n Gyntaf, gan dorri biwrocratiaeth a chanoli cefnogaeth gymunedol ar fentrau a arweinir gan y gymuned a all ddangos canlyniadau clir. Byddwn yn integreiddio holl fentrau'r Llywodraeth sydd yn cefnogi cymunedau bywiog, gan sicrhau bod digon o arian ar gael i gymdeithas ddinesig. Byddwn yn ailgyfeirio adnoddau Cymunedau'n Gyntaf ar ddatblygu sgiliau, cyrhaeddiad addysgol a chyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc.

Byddwn yn gefnogi Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd ac yn ehangu rhwydwaith y Canolfannau Plant Integredig, gan dargedu plant bregus a theuluoedd gydag anghenion cymhleth, gan ganoli ar weithio ar y cyd rhwng gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion.

Mae'r Blaid yn cydnabod fod gofal plant digonol a fforddiadwy yn hanfodol i fynd i'r afael â thlodi plant. Byddwn yn sicrhau bod hyfforddiant hygyrch ar gael i ofalwyr plant a nanis, a bod awdurdodau lleol yn dehongli canllawiau cynllunio i ofal plant yn y cartref yn gyson ledled Cymru. Byddwn yn ehangu'r rhaglen Dechrau'n Deg, gan gynnig gofal plant am ddim i filoedd o blant yng Nghymru, a chynyddu'r ddarpariaeth trwy'r Gymraeg.

Bydd y Blaid yn comisiynu gwasanaethau eiriol i blant a phobl ifanc gan ddarparwyr y trydydd sector yn genedlaethol trwy'r Uned Eiriol Genedlaethol. Byddwn yn adolygu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, ac yn datblygu targedau sy'n mesur profiad a chanlyniadau i'r defnyddwyr gwasanaeth, nid y broses yn unig.

Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i amddiffyn plant, a byddwn yn gweithio i drawsnewid cyfle bywyd plant sy'n derbyn gofal, yn enwedig eu cyraeddiadau addysgol. Byddwn yn adolygu gwaith Byrddau Lleol Diogelu Plant ac yn cymryd y camau angenrheidiol i'w gwneud mor effeithiol ag sydd modd. Bydd y Blaid yn cyflwyno bwrsariaeth cenedlaethol, sy'n mynnu bod awdurdodau lleol yn cefnogi pobl ifanc mewn gofal sy'n mynd i brifysgol.

Byddwn yn datblygu Set Genedlaethol o Delerau ac Amodau i Ofalwyr Maeth ac yn adolygu cydbwysedd y ddarpariaeth i blant sy'n derbyn gofal rhwng gofal maeth a gofal preswyl. Byddwn yn lleihau lleoliadau all sirol ac yn rhoi terfyn ar leoliadau allan o'r wlad. Byddwn yn creu gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol i Gymru gan sicrhau'r dewis gorau oll i ddarpar rieni mabwysiadu i blant sydd angen eu mabwysiadu.

Byddwn yn hybu addysg ariannol ymysg plant a phobl ifanc ac yn annog cynilwyr ifanc i ddefnyddio eu hundebau credyd lleol.

Fe fydd Plaid Cymru yn ceisio llawn ddatganoli'r Llysoedd Teulu, ac yn dilyn ei ddatganoli, byddwn yn sicrhau bod Llysoedd Teulu yn gweithredu o bersbectif Hawliau Plant. Yn y cyfamser byddwn yn sicrhau bod y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass) yn gweithio o bersbectif Hawliau Plant, a bod gan Cafcass adnoddau digonol i alluogi gweithwyr i wneud ymchwiliad llawn a thrylwyr o sefyllfa unigol pob plentyn.

Yn dilyn datganoli'r gwasanaeth, byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn Gymraeg a bod achosion Llysoedd Teulu yn gallu cael eu clywed yn y Gymraeg. Yn dilyn datganoli'r gwasanaeth byddwn yn sicrhau bod staff ar hyd y gwasanaethau cyhoeddus yn deall goblygiadau dyfarniadau parthed cyfrifoldeb rhiant, fel bod, er enghraifft, rhieni dibreswyl yn derbyn copïau o adroddiadau ysgol yn rheolaidd ac yn cael eu hymgynghori ar benderfyniadau parthed iechyd eu plant.

Byddwn yn cadw swydd y Comisiynydd Plant yng Nghymru ac yn sicrhau bod yr adnoddau iawn ar gael iddo. Byddwn yn deddfu i wella pwerau statudol y Comisiynydd a'i annibyniaeth trwy symud y cyllid i wariant anadrannol yn syth a'i ddwyn o dan gyfrifoldeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd y Blaid yn cefnogi cadw'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn y Cynulliad.

# CymruWell//
# Gwell Cartrefi, Cymunedau Bywiog

**Mae'r Blaid eisiau Cymru lle mae iechyd a lles ei dinasyddion yn gwella oherwydd eu bod yn gallu byw mewn tai fforddiadwy, diogel o safon uchel. Bedair blynedd yn ôl, addawodd y Blaid mewn Llywodraeth greu 6,500 o dai fforddiadwy yng Nghymru. Aethom dros y targed hwnnw - ond mae angen gwneud mwy.**

**Mae gallu prynu neu rentu cartref cynnes, cyfforddus yn un o gydrannau pwysig safon dderbyniol o fyw. Mae'r lle y medrwn fyw yn cael effaith enfawr ar y cyfleoedd a gawn ac ansawdd ein bywydau. Gall codi safon tai wella iechyd ein dinasyddion; lleihau biliau ynni; hybu'r economi lleol; a gwneud cyfraniad sylweddol i dorri allyriadau carbon.**

## Eich cartref, eich cymuned

**Mae'r Blaid wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r her tai sy'n wynebu Cymru yn yr 21ain ganrif. Byddwn yn ceisio ffyrdd newydd o dalu am fwy o dai fforddiadwy. Byddwn yn cyflwyno dewis mwy o dai fforddiadwy, gan gynnwys rhai i brynwyr tro cyntaf.**

Ar waethaf toriadau cyllideb, bydd y Blaid yn anelu at greu o leiaf 6,500 o dai fforddiadwy newydd yng Nghymru dros dymor nesaf y Cynulliad, gan ddefnyddio ffynonellau cyllid newydd.

Bydd y Blaid yn cyflwyno mwy o dai canolraddol gan gynnwys cynllun Rhentu Nawr – Prynu Wedyn, gan helpu mwy o bobl ar incwm isel sy'n annhebyg o allu cael mynediad at dai cymdeithasol i gael cartref fforddiadwy. Bydd hyn yn caniatáu i bobl dalu rhent dan werth y farchnad am eiddo y tu allan i'r sector rhentu cymdeithasol ac mewn rhai achosion bydd yn cyfrannu at flaendal ar gyfer y sawl sydd eisiau prynu'r eiddo.

Byddwn yn cefnogi perchenogaeth tai ar gost isel gan gynnwys trwy raglen Homebuy, lle gall pobl rannu cost prynu tŷ gyda landlord cymdeithasol. Gan mai dim ond cyfran o bris y tŷ mae'n rhaid i'r prynwyr gael gan fenthycwyr morgais, mae'r taliadau misol yn fwy fforddiadwy.

Fe fyddwn yn dod â ffynonellau cyllid eraill i'r sector tai fforddiadwy, gan weithio gyda sefydliadau ariannol a darparwyr cartrefi. Byddwn yn herio Llywodraeth y DG i roi terfyn ar y system annheg o gyllido tai sy'n gweld rhyw £80 miliwn o rent tenantiaid tai cymdeithasol yn trosglwyddo i'r Trysorlys yn hytrach nac i wella eu cartrefi.

Byddwn yn annog benthycwyr i fuddsoddi yn y stoc tai fforddiadwy yng Nghymru trwy weithredu Fframwaith Rheoleiddio i Gymdeithasau Tai, gan gymryd

agwedd seiliedig ar risg ac sy'n canoli ar ddeilliannau at reoleiddio.

Byddwn yn cyflwyno trefn feincnodi ddiwygiedig i rent sy'n amddiffyn safonau, sy'n dryloyw a chadarn ac yn sicrhau rhenti tecach.

Byddwn yn dwyn eiddo gwag yn ôl i ddefnydd trwy gymhellion ac anghymhellion gan gynnwys caniatáu i awdurdodau lleol godi hyd at 200% o dreth cyngor ar ail gartrefi ac eiddo gwag a chyflwyno grantiau ad-daladwy i dalu am ail ddatblygu.

Mewn ardaloedd gwledig, byddwn yn cynnal rhwydwaith o alluogwyr tai gwledig sy'n chwarae rhan allweddol i ehangu dewis o ran tai fforddiadwy. Byddwn yn cyhoeddi canllaw wedi ei ddiweddaru ar TAN 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg ac fe fyddwn yn archwilio cyflwyno proses wrthrychol i asesu effaith datblygiadau ar yr iaith Gymraeg.

Byddwn yn sicrhau bod darparwyr tai yn cadw at Safon Ansawdd Tai Cymru ac yn gweld lle mae modd gwneud mwy o welliannau, gan gynnwys tai carbon isel.

Byddwn yn cynyddu galluedd y sector rhentu preifat i fynd i'r afael â landlordiaid gwael ac annog arferion da. Byddwn yn deddfu i gyflwyno termau tenantiaeth gorfodol yn ysgrifenedig.

Byddwn yn rheoleiddio rheolaeth Cartrefi mewn Parciau fel ein bod yn rhoi gwarchodaeth sylfaenol i drigolion bregus rhag perchenogion anghyfrifol a gadael i Cartrefi mewn Parciau chwarae rhan i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy.

## Yno i chi pan fydd arnoch ein hangen

**Gall rheoli eich cartref fod yn galed. Mae pob math o bethau yn gallu ei wneud yn anodd, o ymdopi â biliau i anawsterau iechyd. Cred y Blaid mai'r dull mwyaf effeithiol i drin digartrefedd yw ei atal rhag digwydd i ddechrau. Gall tipyn bach o help yn gynnar arbed llawer o galedi i unigolion a theuluoedd yn ogystal ag arbed mwy o gostau i'r cyhoedd.**

Byddwn yn cefnogi mudiadau yn y gymdeithas ddinesig i redeg gwasanaethau yn eu cymunedau trwy ei gwneud yn haws trosglwyddo asedau cyhoeddus i grwpiau cymdeithas ddinesig lle'u defnyddir er lles y gymuned.

Byddwn yn cefnogi mentrau cyllid cymdeithasol cyfrifol i helpu i atal pobl rhag mynd i ddyled rhy ddwfn a rheoli dyledion yn well.

Bydd y Blaid mewn Llywodraeth yn amddiffyn cyllideb Cefnogi Pobl a byddwn yn gweithredu casgliadau adolygiad annibynnol Aylward, gan gynnwys adolygu'r ffrydiau cyllido presennol, mabwysiadu agwedd gydweithredol at weinyddu grant y rhaglen, a diogelu'r grant fel bod modd ei defnyddio yn unig i dalu am wasanaethau, prosiectau a rhaglenni sy'n ateb anghenion pobl

fregus a than anfantais.

Bydd y Blaid yn cefnogi pobl hŷn i aros yn annibynnol yn eu cartrefi trwy'r cynlluniau Gofal Ychwanegol, rhaglenni Gofal a Thrwsio, a'r Rhaglen Addasiadau Brys sy'n galluogi i bobl gael eu rhyddhau yn gynt o ysbytai a'u hatal rhag gorfod mynd i'r ysbyty. Byddwn yn gwneud y mwyaf o ddefnydd o deleofal yn ein polisïau tai er mwyn gwella diogelwch yn y cartref i bobl anabl a hŷn er mwyn eu cadw mor annibynnol ag sydd modd.

Mae gwasanaethau cynghori ac eiriol gwirioneddol annibynnol am ddim yn hanfodol i alluogi pobl i wneud dewis ar sail gwybodaeth, mynegi eu barn ac arfer eu hawliau. Byddwn yn gofalu bod gwasanaethau defnyddwyr ac eiriol annibynnol yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Trin tlodi tanwydd

**Ni ddylai neb yng Nghymru orfod dewis rhwng rhoi bwyd ar y bwrdd a chadw'n gynnes. Mae byw mewn tai wedi'u hinsiwleiddio'n wael ac sy'n aneffeithiol o ran ynni yn ddrud ond hefyd yn ddrwg i'n hiechyd, ac mae'n rhoi pwysau niweidiol ar ein hamgylchedd naturiol. Mae angen i ni ostwng allyriadau carbon o'r sector tai fel mater o frys.**

Bydd y Blaid yn gofalu fod y Llywodraeth nesaf yn hwyluso buddsoddi £350 miliwn mewn rhaglen o insiwleiddio a gwella cartrefi mewn ardaloedd, gan dargedu teuluoedd ar incwm isel yn gyntaf, ac adeiladu ar gyfnod cyntaf ARBED.

Byddwn yn galluogi aelwydydd yng Nghymru i wneud gwaith ar dai sydd eisoes yn bodoli trwy gefnogi sefydlu cynllun benthyciadau i dalu am effeithlonrwydd ynni a mesurau ynni adnewyddol yn y cartref ledled Cymru.

## Cymunedau diogelach

**Mae gan bawb yng Nghymru yr hawl i fyw mewn cymuned lle maent yn teimlo'n ddiogel. Fel blaenoriaeth, bydd y Blaid yn ceisio datganoli'r system cyfiawnder troseddol er mwyn datblygu agwedd integredig ar sail cyfiawnder adferol.**

Yn y Llywodraeth nesaf, bydd y Blaid yn galw am ddatganoli'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys plismona a chyfiawnder ieuenctid, fel y gall Cymru gyflwyno agwedd fwy blaengar ac ymatebol i sicrhau cymunedau mwy diogel.

Yn dilyn datganoli cyfiawnder troseddol, bydd y Blaid yn lansio Comisiwn Cenedlaethol ar Blismona. Bydd y prosiect cynhwysfawr hwn yn edrych ar rôl a swyddogaethau heddluoedd Cymru yn y dyfodol , gan gynnwys beth mae  pobl yng Nghymru eisiau gan eu hawdurdodau heddlu a newid yn y galw yng Nghymru'r 21ain ganrif. Gan gadw hynny mewn cof, byddwn yn parhau i wrthwynebu cyflwyno comisiynwyr heddlu etholedig am ein bod yn credu na ddylai

gwleidyddiaeth fod yn rhan o'n system cyfiawnder troseddol.

Fel rhan o'n Comisiwn Cenedlaethol ar Blismona, byddwn yn ceisio cytundeb clir ar fecanweithiau cyllido rhwng Trysorlys y DG, Swyddfa Gartref y DG, a Llywodraeth Cymru, yn ogystal â sicrwydd am setliadau cyllido teg gan y Swyddfa Gartref yn y dyfodol.

Byddwn yn gweithio tuag at system Gymreig o gyfiawnder adferol a phlismona cymunedol. Byddwn yn cyflwyno mwy o gefnogaeth i ddioddefwyr a thystion i helpu pobl deimlo'n fwy diogel yn eu cymunedau a byddwn yn cyflwyno dedfrydau cymunedol lle bo hynny'n briodol.

Agwedd allweddol o'n camau i wneud cymunedau yn fwy diogel fydd mwy o lefydd a rhaglenni adfer o gyffuriau, addysg ar gyffuriau ac alcohol ym mhob ysgol yng Nghymru a gwell cyfleusterau i bobl ifanc yn eu cymunedau.

Mae Plaid Cymru wedi nodi'r nifer anghymesur o gyn-aelodau o'r lluoedd arfog sydd mewn carchardai, ac wedi galw am adolygiad strategol o'r ffyrdd y rhoddir cefnogaeth lles i gyn filwyr. Byddwn yn pwyso am gamau ar unwaith i hybu a sicrhau iechyd a lles meddyliol a chorfforol aelodau o'r lluoedd arfog, ar ffurf Deddf Lles Milwrol, i ddiogelu hawliau'r lluoedd arfog a'u teuluoedd i ôl-ofal cyson, cymorth cyfreithiol a chefnogaeth cwnsela, yn ogystal â gwell iawndal, tai, gofal iechyd a thriniaeth am gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol.

Byddwn yn gweithredu "Yr Hawl i fod yn Ddiogel", strategaeth integredig chwe mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod. Mae angen i ni gael mwy o weithio ar y cyd rhwng help i oroeswyr a cheisio cyfiawnder trwy ein system cyfiawnder troseddol. Mae angen i'r gwasanaethau cymdeithasol, llywodraeth leol, tai, GEG, yr heddlu a system y llysoedd weithio yn integredig er mwyn cefnogi yn llawn fenywod sydd wedi dioddef trais yn y cartref.

Bydd y Blaid yn parhau i ymgyrchu dros reithgorau dwyieithog yng Nghymru ac awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru. Byddwn yn pwyso am adeiladu carchardai i ieuenctid a menywod ac yr ydym yn llwyr gefnogi carchar yn y gogledd.

## CymruWell// Dathlu ein Hiaith, Treftadaeth a Chwaraeon

**Mae ein brwdfrydedd yng Nghymru dros ein diwylliant amrywiol, ein hiaith unigryw, ein chwaraeon a'n treftadaeth yn hysbys; felly hefyd harddwch ysblennydd ein tirwedd a'n hanes lliwgar a diddorol. Mae'r Blaid yn deall bod y rhain oll yn rhannau hanfodol o les cymdeithasol ac economaidd ein cymunedau a'n cenedl - maent yn dwysau ein hymdeimlad o ymwybyddiaeth o pwy ydym a sut y daethom yma. Maent hefyd yn rhoi cyfle gwych i helpu Cymru, a phobl**

**ein gwlad, i dyfu mewn hyder.**

Ers datganoli, mae pobl ledled y byd wedi dechrau darllen am Gymru nad oeddent yn ymwybodol ohoni, ond cred y Blaid fod modd gwneud cymaint mwy i godi proffil ein cenedl ar y llwyfan rhyngwladol a rhannu manteision gwlad sy'n tyfu mewn hunanhyder.

Bydd Plaid Cymru yn arwain menter o bwys i "Ddathlu Cymru" yn ystod Llywodraeth nesaf y Cynulliad, gan ddod i binacl mewn blwyddyn " Gŵyl Cymru", fydd yn cynnwys Adre i Gymru", yn ogystal â dirprwyaethau masnach strategol ar draws  y byd.

Bydd "Dathlu Cymru" yn nodwedd o bob rhan o Lywodraeth a bydd yn ceisio cynyddu ein hyder yn ein cenedl a'i gallu i lwyddo mewn meysydd megis addysg, busnes, twristiaeth, chwaraeon, llenyddiaeth a'r celfyddydau.  Bydd yn cynnwys cynlluniau cymunedol ac addysgol megis y rhaglen a gyflwynwyd yn Llydaw lle cysylltir ysgolion ag ardaloedd ein hamgylchedd naturiol er mwyn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'n treftadaeth.  Bydd ymgyrch i ddenu digwyddiadau mawr i bob rhan o Gymru a byddwn yn buddsoddi mewn pyrth i'n cenedl.

## Y celfyddydau a'n treftadaeth

**Cred y Blaid fod cynnal buddsoddiad yn y celfyddydau a diwylliant yn Gymraeg a Saesneg, yn ogystal ag ieithoedd lleiafrifol, yn hanfodol – nid yn unig o ran cyrraedd ein nod cymdeithasol ac economaidd yn y tymor hir. Mae camau'r Blaid mewn Llywodraeth o ran cyllido digwyddiadau diwylliannol yng Nghymru yn cydnabod cyfraniad pwysig y gall cyrff y celfyddydau wneud i ansawdd bywydau pobl, yn enwedig mewn addysg, iechyd a chynhwysiant cymdeithasol.**

**Ein nod fydd parhau i ofalu bod y gorau o'r celfyddydau yng Nghymru yn ffynnu yn y dyfodol; ein bod yn hybu ein henw da yn rhyngwladol am greadigrwydd a rhagoriaeth; ac, yn bwysicach, ein bod yn ymestyn gafael y celfyddydau at fwy o bobl a mwy o gymunedau.**

Yn y Llywodraeth nesaf bydd y Blaid yn cynnal y cyllid a gynlluniwyd i'r celfyddydau a threftadaeth o ran ei werth cynhenid a'i gyfraniad i dwf ein cenedl.

Byddwn yn datblygu mwy ar Gasgliad y Werin fel porth i holl dreftadaeth hanesyddol Cymru ac yn ei gynnwys wrth gyflwyno'r cwricwlwm yn y dosbarth.

Byddwn yn datblygu ac yn ehangu ein rhaglen o ddigwyddiadau a gwyliau cymunedol, gan weithio gyda phobl leol a thargedu ardaloedd o amddifadedd allweddol yn agos at safleoedd CADW. Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant prosiectau ymwneud cymunedol ac yn cyflwyno a hybu "Dyddiau Agored" CADW

am ddim i bawb, a'u hategu gyda digwyddiadau arbennig.

Byddwn yn cadw mynediad am ddim i safleoedd ein Hamgueddfa Genedlaethol ac yn ceisio gofalu fod gan bob plentyn gyfle i ymweld ag o leiaf un o'r safleoedd hyn yn ystod ei yrfa ysgol.

Yr ydym wedi ymrwymo i ddatblygu a moderneiddio'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan. Byddwn yn sicrhau fod pob sefydliad cenedlaethol yn y portffolio Treftadaeth yn effeithlon ac yn cyfoethogi profiad ymwelwyr a thwristiaid.

Byddwn yn cynnal ein cefnogaeth i'n cwmnïau celfyddydol cenedlaethol ac yn annog mwy o bobl o bob man i gymryd rhan yn y celfyddydau trwy roi mwy o arian i fudiadau celfyddydau cymunedol. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a mudiadau celfyddydau i sicrhau isafswm lefel o ddarpariaeth gweithgaredd celfyddydau i bobl ifanc yn ardal pob awdurdod lleol.

Byddwn yn datblygu, mewn partneriaeth â'r adran addysg a Chyngor Celfyddydau Cymru, agwedd newydd at y modd mae plant a phobl ifanc yn mynd at y celfyddydau. Bydd hyn yn cynnwys darparu mwy o gyfleoedd i blant fynd at y celfyddydau a theatr fel rhan o'u profiad ysgol; diwygio'r modd mae addysg cerdd yn cael ei dysgu yn ein hysgolion, a'r adnoddau roddir iddo; creu Bwrsariaeth Genedlaethol i Gerddorion a Pherfformwyr ifanc gan ofalu fod pob un o'r mudiadau celfyddydau sy'n derbyn arian refeniw yng Nghymru yn meddu ar gynllun i gynyddu mynediad at weithgaredd diwylliannol i deuluoedd ar incwm isel; a gweithio gydag CBAC i gyflwyno mwy o destunau a llenyddiaeth Gymraeg a Chymreig i'r cwricwlwm.

Byddwn yn cefnogi cynlluniau prentisiaeth yn y celfyddydau i agor cyfleoedd hyfforddi a gwaith newydd yn y diwydiannau creadigol, yn ogystal â chysylltiadau tramor.

Byddwn yn rhoi mwy o gyfleoedd i'r celfyddydau gweledol a chrefftau ffynnu ac yn bywiogi celf gyhoeddus, yn enwedig mewn mannau celfyddydau newydd ledled Cymru.

Byddwn yn cefnogi creu gwyliau cenedlaethol ychwanegol i nodi Dydd Gŵyl Dewi, a byddwn yn mynd ati i hybu digwyddiadau yng Nghymru a ledled y byd er mwyn hybu twristiaeth i Gymru a mwy o ymwybyddiaeth o'n cenedl.

Credwn y dylai llyfrgelloedd ysbrydoli pobl i fwynhau darllen, gwella eu gwybodaeth, datblygu eu sgiliau a chymryd rhan yn eu cymunedau. Byddwn yn cefnogi gweithredu'r fframwaith datblygu strategol i lyfrgelloedd Cymru ac fe fyddwn yn parhau i ariannu moderneiddio llyfrgelloedd lleol.

## Darlledu a'n diwydiannau creadigol

**Er mwyn cyrraedd ein nod cymdeithasol ac economaidd, mae ar Gymru angen nid yn unig sector**

**celfyddydau a diwylliant ffyniannus, ond hefyd gwasanaethau darlledu rhagorol a diwydiannau creadigol arloesol. Ar hyn o bryd, mae dyfodol y sectorau hyn dan fygythiad nid yn unig gan Lywodraeth y DG , sy'n ceisio tanseilio dyfodol S4C, ond hefyd gan y cwmnïau darlledu mawrion sy'n torri gwasanaethau yng Nghymru.**

Byddwn yn ceisio trosglwyddo'r cyfrifoldeb a'r cyllid am ddarlledu a rheoleiddio darlledu yng Nghymru i'r Cynulliad Cenedlaethol, ynghyd â rheolaeth dros drwyddedau radio er mwyn amddiffyn a datblygu gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg. Byddwn yn rhoi i gynulleidfaoedd Cymru fwy o lais ynglŷn â dosbarthiad amleddau FM yng Nghymru ac yn ymgyrchu i sicrhau fod radio digidol DAB ar gael ledled y wlad.

Mae Plaid Cymru wedi ymrwymo i amddiffyn darlledu a chyfryngau gwasanaeth cyhoeddus o safon uchel. Byddwn yn cefnogi datblygu gwasanaethau aml-blatfform i gynulleidfaoedd yng Nghymru. Byddwn yn diogelu annibyniaeth golygyddol, ariannol a gweithredol S4C yn ogystal â sicrhau cyllid cynaliadwy tymor hir i'r sianel.

Bydd y Blaid yn parhau i fanteisio i'r eithaf ar fanteision cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd sector diwydiannau creadigol a ffilm bywiog yng Nghymru fel un o'n sectorau twf allweddol. Yr ydym yn dal wedi ymrwymo i'r broses o ddigideiddio mwy o ddeunydd print a gweledol Cymreig yn ogystal â pharhau â'r archif sain a sgrin. Byddwn yn parhau i gefnogi creu parth rhyngrwyd diwylliannol a ieithyddol dotCymru.

## Cenedl fywiog

**Mae gweithgaredd corfforol yn hanfodol i'n hiechyd a'n lles. Rydym eisiau gweld mwy o bobl yng Nghymru yn mwynhau bywyd egniol. Rydym eisiau gwneud hyn yn haws iddynt. Mae gormod o bobl heb fod yn gwneud digon o ymarfer corff – ac os na fyddwn yn helpu pobl i newid hyn yn awr, rydym yn creu mwy o broblemau i'r dyfodol.**

**Gall chwaraeon a gweithgaredd corfforol helpu i ddatblygu sgiliau fydd o les i unigolion yn ogystal â'n cymdeithas ehangach a'r economi. Mae'r rhain yn cynnwys magu hyder, sgiliau rhyngbersonol ac arweinyddiaeth. I lawer o blant a phobl ifanc, mae cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol yn rhoi iddynt sgiliau a phrofiadau a all eu helpu i wireddu eu huchelgais ehangach.**

Byddwn yn sicrhau y bydd pob plentyn a pherson ifanc, yn enwedig merched a menywod ifanc, yn gallu ac yn cael eu hannog i gyrraedd amrywiaeth o gyfleoedd chwaraeon fel rhan o'r cwricwlwm ffurfiol , wedi'r ysgol ac yn y gymuned.

Byddwn yn annog cysylltiadau

cryfach rhwng ysgolion a chlybiau i rannu cyfleusterau, gyda mwy o gyfleusterau ysgolion ar gael wedi'r ysgol ac ar benwythnosau. Byddwn yn annog adeiladu Canolfan newydd i'r Urdd yn y Cymoedd. Bydd y Blaid yn parhau i gefnogi amddiffyn caeau chwarae. Byddwn yn cysylltu canolfannau trefol â mynediad at fannau awyr agored i gefnogi dulliau bywiog o fyw a gweithgareddau hamdden.

Byddwn yn buddsoddi i ddatblygu hyfforddi i gynyddu cyfranogi a rhagoriaeth trwy ein Cynllun Hyfforddi Cymru, i gynyddu cyfranogaeth a rhagoriaeth mewn chwaraeon. Byddwn yn datblygu gweithlu proffesiynol a gwirfoddol a all roi profiad chwaraeon safonol a diddorol i bawb.

Byddwn yn datblygu ac yn cynnal amgylchedd ffisegol sy'n ei gwneud yn haws a mwy diogel i bobl ddewis bod yn fwy corfforol weithredol trwy ymestyn llwybrau cerdded a llwybrau beicio o gwmpas ein trefi a'n dinasoedd, gyda phwyslais arbennig ar Lwybrau Diogel i'r Ysgol.

Yr ydym eisiau cael mwy o bob sector i gymryd rhan mewn chwaraeon, ac fe wnawn hyn trwy gynnal diwylliant clybiau bywiog a seilwaith ledled Cymru. Bydd y Blaid yn cefnogi stadiwm o safon ryngwladol yn Wrecsam. Byddwn yn parhau i nodi a meithrin doniau er mwyn cyflwyno llwyddiant parhaus i Gymru ar lwyfan y byd.

## Iaith i bawb

**Yn 2011, o ganlyniad i waith Plaid Cymru mewn Llywodraeth, enillodd yr iaith Gymraeg statws swyddogol am y tro cyntaf yn ei hanes. Yr oedd y ddeddfwriaeth hon yn garreg filltir o bwys a greodd hefyd swydd newydd y Comisiynydd Iaith Gymraeg a ddaw i fod y flwyddyn nesaf, a chaniataodd i'r Cynulliad gynyddu'r ddarpariaeth gwasanaethau fydd ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol.**

Ein nod fydd sicrhau llwyddiant y darpariaethau newydd hyn a'u bod yn cael eu cefnogi yn eang, gyda golwg ar ymestyn nifer y sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol. Byddwn yn datblygu cynllun gwirfoddol i annog mudiadau yn y sector preifat i barhau i ddatblygu'r gwasanaethau y maent yn darparu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn y Llywodraeth nesaf, bydd y Blaid yn canolbwyntio ar gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a hefyd yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Byddwn yn sicrhau y bydd dyfodol y Gymraeg yn ystyriaeth allweddol ar draws pob penderfyniad yn y Llywodraeth. Y Prif Weinidog fydd yn gyfrifol am roi adroddiad blynyddol am gynnydd y Llywodraeth o ran yr iaith Gymraeg.

Crëir Uned Iaith Gymraeg unswydd newydd i brif ffrydio'r iaith ac i gyflwyno'r Strategaeth Iaith Gymraeg, ac fe'i cefnogir gan Gronfa Arloesedd yr Iaith Gymraeg, er mwyn cefnogi ac ymdiffyn y Gymraeg fel iaith cymunedol. Bydd y Blaid yn cefnogi

gwaith Comisiynydd newydd yr Iaith Gymraeg.

Byddwn yn creu Ardaloedd Datblygu Iaith newydd er mwyn gwrthdroi'r dirywiad yn yr iaith lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol. Llunnir rhaglen weithredu integredig i'r mannau hynny fydd yn cynnwys gwaith, tai, diwylliant, cynllunio a gwasanaethau cyhoeddus. Byddwn yn cynyddu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith trwy ein cynllun Trefi a Dinasoedd Dwyieithog.

Byddwn yn creu gweithleoedd Cymraeg yn y gwasanaeth cyhoeddus Cymreig fel y gall mwy o staff weithio trwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig yn Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn gweithio gyda chynrychiolwyr ar draws y Llywodraeth yn ogystal â Mudiad Ysgolion Meithrin, Cymraeg i oedolion, ein darlledwyr, Mentrau Iaith a phartneriaid eraill i greu a gweithredu Cynllun Cyflwyno'r Iaith Gymraeg i'r grŵp oedran 0-7.

## Ein Hamgylchedd CymruWell// Dyfodol cynaliadwy i'n tir a'n pobl

**Mae amgylchedd naturiol iach yn sylfaen i'n lles ac i economi ffyniannus. Mae'n ffynhonnell llawer o bleser, ond hefyd yn ˆ ffynhonnell asedau naturiol hanfodol a chynhyrchiol gan gynnwys dwr, bwyd ac ynni y mae ein cymdeithas yn dibynnu arnynt. Yng Nghymru, rydym yn ffodus fod gennym gyfoeth o adnoddau naturiol a'n bod mewn lle da i wneud y mwyaf o'r rhain mewn modd all feithrin amgylchedd naturiol iach yn ogystal â chefnogi cymdeithas deg a ffyniannus.**

**Gwyddom fod ein hamgylchedd naturiol dan bwysau mawr sy'n ein hwynebu â nifer o fygythiadau sylweddol. Newid hinsawdd yw'r mwyaf o'r̂ rhain ond y mae argyfyngau ar y gorwel hefyd mewn ynni, bwyd, dwr a bywyd gwyllt. Ein her yw byw ein bywydau yn y fath fodd fel y gall ein hamgylchedd naturiol gynnal economi gref a chymdeithas deg i'r dyfodol.**

### Cymru wyrddach a glanach

**Rydym eisiau creu Cymru wydn, all ymdopi'n well ag effeithiau newid hinsawdd a defnyddio ei adnoddau ei hun – ynni, tir a dwr – i'r eithaf. Cred Plaid Cymru, am resymau amgylcheddol ac economaidd, ei bod yn hanfodol ein bod yn ehangu ein gallu ein hun i gynhyrchu'r bwyd ac ynni.**

Cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ostwng allyriadau i 40% yn is na lefelau 1990 erbyn 2020, a bydd y Blaid mewn Llywodraeth yn gweithio i sicrhau troi'r penderfyniad hwn yn weithredu ystyrlon ac effeithiol.

Byddwn yn sicrhau bod newid hinsawdd yn ystyriaeth yn holl benderfyniadau'r Llywodraeth a byddwn yn rhoi cymhellion

i ddatblygu cynllunio am newid hinsawdd ar draws y sector cyhoeddus Cymreig. Byddwn yn cyflwyno cyllidebu carbon ar draws Llywodraeth Cymru ac yn annog ei gyflwyno ar draws y sector cyhoeddus Cymreig.

Byddwn yn ehangu prosiect Parthau Carbon Isel. Bydd y prosiectau hyn yn helpu pobl i arbed ynni, torri biliau tanwydd ac amddiffyn a chreu swyddi.

Byddwn yn sicrhau fod buddsoddi mewn ymchwil a datblygu technoleg wyrdd wedi ei gysylltu â deilliannau clir fel y gallwn gynyddu cyfran Cymru o farchnad y diwydiant gwyrdd. Byddwn yn cefnogi gwaith y Sefydliad Ymchwil Carbon Isel.

Bydd y Blaid yn buddsoddi'n sylweddol mewn seilwaith trafnidiaeth gwyrdd. Byddwn yn parhau i gyflwyno ein menter Trefi Teithio Cynaliadwy gyda gwasanaethau cludiant cyhoeddus gwych a gwell darpariaeth i feicwyr a cherddwyr.

## Cynllunio i'r dyfodol

**Mae'r modd yr ydym yn defnyddio ein tir yn diffinio ein potensial economaidd ac amgylcheddol fel cenedl. Rhaid i dir sydd mewn perchenogaeth gyhoeddus roi gwell elw economaidd a deilliannau amgylcheddol i'n gwlad. Dylai rheoleiddio amgylcheddol, cymhellion ariannol a pholisi cynllunio weithio i roi mwy o fanteision cyhoeddus ac economaidd ar dir sydd mewn dwylo preifat.**

Byddwn yn diwygio system gynllunio Cymru o'r bôn i'r brig, i annog datblygu economi carbon isel a thwf busnesau newydd, ymateb i anghenion lleol, a chreu cymunedau modern a chynaliadwy.

Byddwn yn cyhoeddi Papur Diwygio Cynllunio, i ragflaenu deddfwriaeth gynllunio newydd yng Nghymru. Mae'r ddeddfwriaeth, polisïau a chanllawiau cynllunio presennol wedi dyddio yn enbyd ac nid yw'n rhoi'r mecanwaith i alluogi busnesau i ffynnu, codi tai yn lleol na gwireddu datblygiadau ynni adnewyddol a chyfathrebu.

Dylai polisi cynllunio ymboeni llai am reoli datblygu a chanolbwyntio mwy ar ddylunio da a hybu safonau amgylcheddol ac ynni da. Dylai polisïau cynllunio hwyluso, nid llesteirio, prosiectau economaidd a busnes a phrosiectau seilwaith er budd y bobl.

Byddwn yn sefydlu  Arolygiaeth Gynllunio i Gymru sy'n atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol, yn ogystal â Chomisiwn Annibynnol i roi cyngor am y Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) a Pholisi Gwarchodfeydd Natur i Gymru. Ei dasg fydd ystyried a ddylai'r cyfrifoldeb cynllunio aros gydag Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, neu a ddylem greu un sefydliad cenedlaethol i redeg yr holl Barciau Cenedlaethol, AHNE a Gwarchodfeydd Natur, gydag un Gwasanaeth Warden integredig; ac a ddylid gwneud unrhyw newidiadau i ffiniau.

Byddwn yn newid polisi cynllunio ar unwaith i greu rhagdyb o blaid prosiectau ynni adnewyddol meicro, graddfa fechan neu gymunedol, ym mhob ardal o Gymru. Bydd cael caniatâd cynllunio i gynhyrchu ynni adnewyddol yn cael ei symleiddio.

Byddwn yn ystyried rôl Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Byddwn yn ceisio datganoli Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth yn llawn.

Byddwn yn lawnsio rhaglen 'Natur i Bobl' o adfer a chreu cynefinoedd ledled Cymru, gyda'r cyflwyno wedi ei gydgordio rhwng asiantaethau, NGOs a thirfeddianwyr. Bydd hyn yn cyfrannu at ein targedau bioamrywiaeth yn ogystal â chyflwyno datblygu cymunedol cynaliadwy a manteision economaidd. Byddwn yn disgwyl i bob corff cyhoeddus gynnal, a lle bo modd, gwella, bioamrywiaeth ar eu tir.

Mae'r Blaid wedi ymrwymo i'r targed uchelgeisiol o ddod yn genedl ailgylchu uchel erbyn 2025 a chenedl dim gwastraff erbyn 2050. I wneud hyn, byddwn yn creu mwy o swyddi a sgiliau gwyrdd yn ogystal ag amddiffyn a gwella ein hamgylchedd naturiol. Byddwn yn gwneud hyn trwy leihau swm y gwastraff yr ydym yn gynhyrchu, ailddefnyddio cynhyrchion, ac yn olaf, ailgylchu cyfrifol.

Byddwn yn cefnogi llywodraeth leol yng Nghymru i gyrraedd targedau cenedlaethol ailgylchu a chompostio o 70%, yn ogystal â gofalu gall awdurdodau lleol ffafrio deunyddiau o ffynonellau eilgylch a lleol. Byddwn yn gweithio gyda sector y prifysgolion a diwydiant i ddatblygu amrywiaeth o dechnolegau i drin gwastraff nad oes modd ei ailgylchu.

## Ein hynni a'n dŵr

**Mae angen dybryd i ni newid y ffordd yr ydym yn cynhyrchu ac yn defnyddio ynni. Yng Nghymru, mae ein dibyniaeth ar fewnforio ynni yn golygu ein bod yn fwy bregus i ddigwyddiadau rhyngwladol y tu hwnt i'n rheolaeth. Gyda biliau ynni yn taro teuluoedd yn galed, rhaid i ni weithredu.**

Mae ein hadnoddau naturiol yn hanfodol bwysig i ddyfodol Cymru. Yn y Llywodraeth nesaf, bydd y Blaid yn trafod gyda Llywodraeth y DG er mwyn gwneud yn siŵr fod yr holl swyddogaethau ym maes dŵr a chynhyrchu ynni yn cael eu datganoli. Yn y cyfamser, byddwn yn defnyddio'r pwerau sydd gennym yn fwy effeithiol i gynyddu cynhyrchu ynni adnewyddol.

**Mae gan Gymru ffynonellau helaeth o ynni adnewyddol a allai nid yn unig dorri ôl troed carbon Cymru a chael atebion cynaliadwy i'n hanghenion ynni, ond hefyd creu cyfleoedd busnes a chyflogaeth sylweddol i'n gwlad.**

Bydd y Blaid yn sefydlu Gwyrdd Cymru, sefydliad nid-am-elw-dosbarthiadwy i'r sector ynni adnewyddol, lle byddai cwmni'r prosiect yn cael y dasg o reoli prosiectau ynni adnewyddol yng Nghymru, heb gyfranddalwyr, yn cael ei redeg er lles cwsmeriaid, a'r elw yn cael ei droi yn ôl i fuddsoddi a thorri costau biliau trydan i ddefnyddwyr.

Yn y Llywodraeth nesaf, bydd y Blaid yn anelu at wneud Cymru yn hunangynhaliol mewn trydan adnewyddol erbyn 2030. Bydd hyn yn hwb mawr i economi Cymru a bydd yn dod â budd amlwg i gymunedau lleol.

Rydym eisiau gweld mwy o arweinyddiaeth gymunedol a pherchnogaeth Gymreig o gwmnïau ynni adnewyddol a mwy o fodelau cymunedol ac nid-am-elw-dosbarthiadwy fel bod y cyhoedd yn cael y lles mwyaf. Byddwn yn datblygu sector ynni adnewyddol cryf trwy fuddsoddi a darparu cefnogaeth wedi ei dargedu gan y Llywodraeth. Galwn am ddiwygio Cronfa Porthladdoedd y DG. Ar hyn o bryd, dim ond 1% o'r arian hwn nad yw wedi ei ddatganoli sy'n dod i Gymru i ddatblygu technolegau carbon isel.

Byddwn yn peri bod benthyciadau ar gael ar gyfer prosiectau meicro gynhyrchu mewn cartrefi unigol. Dylai pobl mewn ardaloedd o gwmpas gosodiadau ynni adnewyddol dderbyn gostyngiad yn eu cost ynni i annog mwy o ymwneud gan y gymuned.

Byddwn yn annog mwy o ddatblygu cynlluniau trydan dŵr a byddwn yn defnyddio ein hadolygiad o gyfreithiau cynllunio a chyrff amgylcheddol i'r perwyl hwn. Byddwn yn ymchwilio i greu grid clyfar am ynni adnewyddol yng Nghymru. Byddwn hefyd yn comisiynu astudiaeth ddichonoldeb Llywodraeth Cymru ar adeiladu morlyn llanw i Gymru, ac yn cefnogi datblygu morlynnoedd a thyrbinau ffrwd-llanw i harneisio ynni'r llanw.

Mae Plaid Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y diwydiant glo i economi Cymru, ac yn cydnabod ar yr un pryd yr her amgylcheddol ddaw o gynhyrchu glo. Buasem yn cyfyngu ar gynhyrchu mwy o lo i sefyllfaoedd lle byddai'n cymryd lle glo wedi ei fewnforio.

Byddwn yn deddfu i wneud Pwyllgorau Cyswllt Cymunedol yn ofyniad statudol i bobl prosiect glo brig yng Nghymru. Bydd pwyllgorau yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu cynnydd a chodi materion sy'n deillio o weithgareddau mwyngloddio, a byddant yn cynnwys cynrychiolwyr cymunedau lleol, y cwmnïau mwyngloddio a chynghorwyr lleol.

Mae dŵr yn adnodd naturiol hollbwysig, ac y mae'n dod yn gynyddol werthfawr yng nghyd-destun newid hinsawdd, twf mewn poblogaeth a dulliau o fyw sy'n defnyddio llawer o ddŵr. Yn ffodus, mae'n adnodd naturiol sy'n helaeth yng Nghymru. Pobl Cymru yw'r rhai

ddylai fod yn elwa o'r cyfoeth a grëir gan ein hadnoddau dŵr, boed yr adnoddau hynny yn cael eu defnyddio gennym ni neu gan eraill. Cred y Blaid y dylai pwerau a chyfrifoldeb dros ddŵr orwedd gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddwn yn ceisio datganoli llawn dros bolisi, rheoleiddio a rheoli dŵr, fel adnodd allweddol i ddyfodol ein cenedl.

Byddwn yn lleihau perygl llifogydd yn ein pentrefi, trefi a'n dinasoedd trwy fuddsoddi mewn amddiffynfeydd llifogydd, draeniad trefol addas a rhoi cymhellion i dirfeddianwyr reoli dŵr yn well wrth y tarddiad. Byddwn yn sefydlu Asiantaeth Llifogydd Cenedlaethol fel pwynt cyswllt canolog i bobl y mae llifogydd yn effeithio arnynt. Byddwn yn sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cytuno ar darged gyda Dŵr Cymru i leihau draenio dŵr wyneb i fewn i'r system carthffosiaeth.

Mae ein llynnoedd a'n hafonydd yn ased twristiaeth ac economaidd sylweddol. Maent hefyd yn gynefinoedd pwysig i adfer bywyd gwyllt sydd dan fygythiad a bioamrywiaeth. Mae pysgotwyr eisoes yn chwarae rhan bwysig yn gwella'r cynefinoedd hyn a rhoi cyfleoedd am dwristiaeth. Mae eu defnydd o'r afonydd eisoes yn cael ei reoleiddio. Mae angen system reoleiddio hefyd i fynediad at ddyfroedd mewndirol gan ddefnyddwyr eraill  yr afonydd.

## Ein bwyd

**Mae'r rhan fwyaf o'n tir yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu bwyd, sydd yn hanfodol i'n hiechyd, ein heconomi a'r modd yr ydym yn defnyddio ein hamgylchedd naturiol. Mae'r Blaid eisiau i ffermydd teuluol ledled Cymru barhau i fod yn gonglfaen ein sector bwyd, gan gynhyrchu bwyd cynaliadwy o safon uchel ac amddiffyn ein hamgylchedd naturiol, gan gynyddu'r cyflenwadau sy'n bwydo ein poblogaeth.**

Bydd diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yn cael ei gwblhau yn ystod tymor nesaf y Cynulliad. Cred Plaid Cymru, er mwyn diogelwch bwyd a rheolaeth dda ar dir a hinsawdd, fod mwy o angen am PAC cryf. Credwn fod yn rhaid cael taliadau incwm uniongyrchol i ffermwyr i wneud iawn am y diffygion parhaus yn y farchnad. Petai'r taliad uniongyrchol hwn yn cael ei ostwng, gallai beryglu hyfywedd y fferm deuluol Gymreig yn enbyd.

Credwn mai'r ffordd orau i gyflwyno mesurau amgylcheddol ar ffermydd yw yn wirfoddol dan drefniadau Piler 2 yn y PAC. Byddwn yn parhau i adolygu Glastir er mwyn gofalu ei fod yn gynllun sy'n ateb her newid hinsawdd, dirywiad bioamrywiaeth, rheoli dŵr ac ynni adnewyddol, ac yn integreiddio yn dda gyda gweithgaredd beunyddiol ar y fferm.

Mae brwdfrydedd pobl ifanc dros fynd i mewn i'r diwydiant amaeth yn amlwg o lwyddiant y Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid (YESS) a'r cynnydd dramatig yn nifer y bobl ifanc sydd yn astudio pynciau amaethyddol yn ein colegau. Byddwn yn ceisio adeiladu mwy ar y llwyddiant hwn ac yn parhau i ddatblygu'r cynllun YESS. Mae angen i Gymru ddarparu addysg milfeddygol. Byddwn yn comisiynu astudiaeth ddichonoldeb lawn i sefydlu Ysgol Filfeddygol yng Nghymru.

Mae ffermio llaeth yn sector dwys o ran cyfalaf. Byddwn yn ceisio darparu Benthyciad Buddsoddi i ffermwyr llaeth i'w helpu gyda'u cynlluniau buddsoddi o ran hybu effeithiolrwydd a chynyddu cynhyrchedd. Byddwn yn sicrhau bod dileu TB yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Llywodraeth nesaf Cymru. Mae angen agwedd gyfun at ymdrin â lefelau clefyd mewn gwartheg a bywyd gwyllt.

Bydd y Blaid yn parhau i hybu cynnyrch Cymreig ac yn cynyddu'r defnydd o fwyd lleol, iach a chynaliadwy mewn ysgolion ac ysbytai, gan lansio menter Bwyd Blasus, Bwyd Bro i gefnogi systemau bwyd lleol. Byddwn yn cynnal cynllun peilot y fenter Bwyd Blasus, Bwyd Bro mewn un Ysbyty Cyffredinol, clwstwr lleol o ysgolion ac un Brifysgol. Byddwn yn parhau i ddwyn pwysau ar Lywodraeth y DG i gyflwyno Ombwdsmon Archfarchnadoedd. Rydym yn cefnogi labelu gorfodol ar wlad y tarddiad.

Byddwn yn cefnogi cynhyrchu bwyd cymunedol a defnydd tir gan gynnwys rhandiroedd a hybu marchnadoedd a gwyliau bwyd lleol. Byddwn yn gweithio gydag ysgolion i beri eu bod yn gallu mynd at randir neu fath arall o dir fel y gallant ddysgu'r disgyblion am dyfu bwyd a choginio gyda chynnyrch ffres. Byddwn yn gweithio i sicrhau fod pobl sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd yn gallu prynu ffrwythau a llysiau tymhorol o safon am bris isel. Byddwn yn cefnogi sefydlu mentrau bwyd cydweithredol ledled Cymru.

Byddwn yn parhau i hybu pysgodfeydd cynaliadwy ar y glannau. Mae'n hanfodol diwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, ond dylem ofalu y gall ein diwydiant pysgota bychan barhau a chwilio am farchnadoedd cryfach, mwy amrywiol a lleol. Byddwn yn gweithio gyda'n pysgotwyr i ddatblygu achrediad pysgodfeydd cynaliadwy i fwy o'n pysgodfeydd ac yn ceisio gwell cyfleoedd yn y farchnad i bysgod a physgod cregyn.

## Coedwigoedd i bawb

**Mae ein coetiroedd yn rhoi gwaith, yn cynnal y diwydiannau coed a thwristiaeth, ac yn chwarae rhan bwysig yn ein helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd ac atal colli bioamrywiaeth. Maent hefyd yn rhoi llawer o bleser trwy fynediad i'r cyhoedd.**

Yn y Llywodraeth nesaf, bydd y Blaid yn sicrhau yr erys ein stad o goedwigoedd cyhoeddus ym meddiant y cyhoedd. Byddwn yn ceisio datganoli yn llwyr swyddogaethau’r Comisiwn Coedwigaeth ac yn pasio Deddf Coedwigaeth i wreiddio mynediad i’r cyhoedd a’r defnydd o’r Stad Coedwigaeth Genedlaethol er budd economaidd, amgylcheddol ac ynni.

Byddwn yn hybu buddsoddi mewn 100,000 hectar o goetiroedd newydd ar ffermydd dros yr 20 mlynedd nesaf. Byddwn hefyd yn cefnogi mentrau cymunedol a chymdeithasol all ddangos y buasent yn darparu lles i’r cyhoedd o ymgymryd â chytundebau rheoli coetiroedd cyhoeddus.

## Gwynt, dŵr, tir a môr

**Ein tir yw un o’n hasedau pwysicaf. Mae’r Blaid eisiau gweld tir yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio er lles amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Rydym eisiau gweld pobl Cymru yn elwa o fuddiannau ein tir gwerthfawr. Mae Stad y Goron yn dirfeddiannwr sylweddol yng nghefn gwlad Cymru. Hwy hefyd sy’n berchen gwely’r môr hyd at 12 milltir allan i’r môr ac y maent yn berchen ar 65% o’r blaendraeth. Mae’r rhain yn asedau gwerthfawr, yn enwedig o gofio potensial Cymru i fod yn gyfoethog o ran ynni adnewyddadwy yn y môr.**

Cred y Blaid ei bod yn hen bryd i holl elw o Stad y Goron yng Nghymru gael ei ddefnyddio er lles pobl Cymru a byddwn yn galw am drosglwyddo perchenogaeth i Lywodraeth Cymru ar ran pobl Cymru.

Dylai defnyddio pob tir mewn perchenogaeth gyhoeddus er lles y cyhoedd, boed ar gyfer tai fforddiadwy, mentrau bwyd cymunedol, ynni adnewyddol a mannau gwyrdd i ddulliau iach o fyw, neu ei drosglwyddo i berchenogaeth gymunedol i ddarparu prosiectau lleol sy’n ateb dyheadau lleol. Bydd y Blaid yn sicrhau fod modd prydlesu tir mewn perchenogaeth gyhoeddus ar delerau ffafriol i gwmnïau cymunedol a grwpiau eraill sydd am gynhyrchu ynni adnewyddol, bwyd a thai fforddiadwy.

Byddwn yn gwella’r rheolaeth o Ardaloedd Gwarchodedig Morol ac fe fyddwn yn cyhoeddi cynlluniau morol sydd yn delio gyda holl gweithgareddau i sicrhau defnydd adnoddau cynaliadwy ym moroedd Cymru.

## Am fwy o wybodaeth ewch i:

www.plaidcymru.org